*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (07385401954)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG** yn cael ei gynnal ar **Dydd MAWRTH, 25AIN HYDREF, 2022** am **10.00 AM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Gwener 22 Hydref 2022 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw.
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf a gafodd ei gynnal ar 8 Rhagfyr 2021.

**3 - 4**

**3. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2022-2027**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned, sy'n rhoi copi diwygiedig o Strategaeth Hybu'r Gymraeg i Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion y Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**5 - 102**

**4. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchreliad:-**

**Cadeirydd ac Is-gadeirydd:**
(Y Cynghorydd R Lewis ac Y Cynghorydd C Leyshon)

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**
Y Cynghorydd M Webber, Y Cynghorydd G Caple ac Y Cynghorydd M Norris

**Swyddogion:**
Louise Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Nicola Lewis, Pennaeth Gwasanaethau yn y Gymuned a Gwasanaethau Cymraeg
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
Lisa Sheppard-Thomas, Uwch Swyddog Cydymffurfio A Pholisi - Y Gymraeg
Scott Thomas, Swyddog Prosiect Yr Eisteddfod

**Menter Iaith:**
Osian Rowlands

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
# RHONDDA CYNON TAF

**GRŴP LLYWIO'R CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

Cofnodion rhithwir o gyfarfod y Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg a gynhaliwyd Dydd Mercher, 8 Rhagfyr 2021 am 10.00 am

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg Aelodau oedd yn bresennol :-

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)

Y Cynghorydd J Rosser    Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd R Lewis

## Swyddogion oedd yn bresennol :-

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr S Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg
Ms G Zecca-Hanagan, Swyddog Cymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif
Ms S Daniel, Uwch Swyddog Democrataidd a Chraffu
Ms K Spence, Swyddog Cymorth i Bwyllgorau

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol :-

Cynrychiolydd Menter Iaith – Mr O Rowlands

**16 Croeso**

Croesawodd Rheolwr y Gwasanaethau Cymraeg Mr Osian Rowlands i'w gyfarfod cyntaf o'r Grŵp Llywio.

**17 Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriadau gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Hooper a Ms Andrea Richards.

**18 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cynghorydd Rhys Lewis y datganiad o fuddiant personol canlynol yn ymwneud â'r agenda, ac arhosodd yn y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei thrafod ac yn ystod y bleidlais:

- “Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Abercynon, ysgol y cyfeiriwyd ati yn adroddiad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg”.

**19 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2021 yn rhai cywir.

**20 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - Drafft**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant drosolwg o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (drafft) y Cyngor i Aelodau'r Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd, gan roi cyfle i Aelodau gyflwyno sylwadau ac adborth mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (drafft).

Cafodd yr Aelodau wybod am darged uchelgeisiol y Cyngor o gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn un sy'n mynychu lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd y targed yma'n cael ei gyflawni drwy weithredu dull cydweithredol a thrwy weithredu'r camau a gynigwyd yn ystod y deng mlynedd nesaf. Cafodd yr Aelodau wybod am ymgynghoriad â'r cyhoedd a gynhaliwyd ag ystod eang o randdeiliaid i geisio'u barn nhw ar gyflawni'r targed uchelgeisiol yma. Mae'r adborth wedi'i gynnwys yn rhan o Adroddiad Ymgynghori Statudol a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg arfaethedig a fydd yn cael ei drafod gan y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2021.

Roedd y Cadeirydd wedi diolch i'r swyddogion sydd wedi cyfrannu at waith llunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Drafft y Cyngor, gan nodi bod y cynllun yn uchelgeisiol ond yn gytbwys. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y themâu cyffredin sy'n codi yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn enwedig o ran gosod targedau.

Roedd yr Aelodau wedi trafod bod angen edrych ar y cynllun strategol 10 mlynedd yn rheolaidd i fesur y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran targedau mewn modd effeithiol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth mewn perthynas â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (drafft) y Cyngor.

**21 Materion Brys**

Doedd dim mater arall i'w drafod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 am**

**Y Cynghorydd G Hopkins**
**Cadeirydd.**

RHONDDA CYNON TAF

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION Y GYMRAEG**

**25 HYDREF 2022**

**STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2022-2027**

**ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION IECHYD A DIOGELWCH Y CYHOEDD, A GWASANAETHAU CYMUNED MEWN TRAFODAETH GYDA DEILIAD Y PORTFFOLIO PERTHNASOL, Y CYNG. RHYS LEWIS**

**AWDUR:** Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

**1.1** Diben yr adroddiad yw rhoi copi diwygiedig o Strategaeth Hybu'r Gymraeg (Atodiad 1) i Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Safon 145 o'r Hysbysiad Cydymffurfio a gafodd ei gyhoeddi i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## 2. ARGYMHELLION

Dyma'r argymhellion i'r Is-bwyllgor:

2.1 Nodi cynnwys yr adroddiad yma a'r strategaeth gysylltiedig.

2.2 Cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27.

## 3 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi strategaeth bum mlynedd i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

3.2 Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ar ein gwefan bob pum mlynedd.

## 4. CEFNDIR

4.1 Daeth y Strategaeth Hybu’r Gymraeg bresennol i ben yn 2021. Yn dilyn cymeradwyaeth gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg gynt ym mis Ebrill 2021, cafodd cwmni Nico Cyf. – sef sefydliad allanol sy’n arbenigo mewn cynllunio iaith – ei gomisiynu i ddarparu asesiad diduedd a gwrthrychol o Strategaeth a Chynllun Gweithredu 2016-21. Roedd gofyn i'r cwmni hefyd ddarparu argymhellion mewn perthynas â meysydd i'w datblygu ymhellach a/neu eu gwella ar gyfer y strategaeth newydd yma.

4.2. Cafodd adroddiad ar yr asesiad hwnnw ei osod ger bron Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg gynt ym mis Hydref 2021, a'i gymeradwyo.

4.3 Cytunodd Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg gynt hefyd y byddai Nico Cyf. yn helpu’r Cyngor i lunio strategaeth ddiwygiedig ac uchelgeisiol a fyddai’n defnyddio llwyddiant y strategaeth gyntaf yn sail i'r un newydd yma.

4.4 Yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth newydd, a gan ddilyn patrwm y strategaeth gyntaf, cafodd ymgynghoriad â thrigolion ei gynnal er mwyn deall yr hyn a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a pha wasanaethau roedden nhw o'r farn yw'r rhai mwyaf pwysig o ran hybu'r iaith.

4.5 Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal gan ddefnyddio gwefan ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor, sef Dewch i Siarad RhCT.

4.6 Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng 5 Medi a 5 Hydref 2021. Ar y dudalen we roedd dolenni i ddogfennau strategaeth/cynllun y Gymraeg presennol, yn ogystal â chais i ymwelwyr i'r wefan gymryd rhan naill ai mewn arolwg neu roi pinnau rhithwir ar fap rhyngweithiol. Hefyd, roedd fideo wedi'i chyflwyno gan yr awdur a'r darlunydd Siôn Tomos Owen ar y wefan i annog pobl i gymryd rhan (yn Gymraeg a Saesneg).

4. 7 Ochr yn ochr â’r ymgynghoriad ar-lein, cafodd tair sesiwn wyneb yn wyneb eu cynnal yn y tair prif lyfrgell ar hyd a lled y sir (Aberdâr, Llys Cadwyn a Threorci).

4.8 Cafodd adroddiad ar yr ymgynghoriad ei baratoi gan Garfan Ymgynghori’r Cyngor. Mae modd ei ddarllen yn Atodiad 2.

4.9 Mae Nico Cyf. hefyd wedi ymgynghori'n eang ag uwch swyddogion allweddol mewn nifer o feysydd gwasanaeth er mwyn cael consensws ar unrhyw gamau gweithredu.

## 5. STRATEGAETH HYBU'R GYMRAEG 2022-2027

5.1 Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 fydd ail strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n barhad o'r strategaeth gyntaf (2016-2021) ac mae'n adeiladu ar waith y Cyngor a'n partneriaid i hyrwyddo a hwyluso'r iaith dros y pum mlynedd diwethaf yn sail.

5.2 Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Chynllun Strategol newydd y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 fel bod modd i'r Cyngor chwarae rhan ganolog wrth gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

5.3. Bydd y Cyngor yn parhau i fabwysiadu ei ddull (a gafodd ei gytuno gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg gynt ym mis Mai 2018) o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol yn unol â thrywydd strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' Llywodraeth Cymru. Y garreg filltir nesaf fyddai cynnydd o 5% ar ffigurau arfaethedig Cyfrifiad 2021.

5.4 Ymhellach i hyn, bydd y strategaeth bum mlynedd ddiwygiedig newydd yma'n parhau i ganolbwyntio ar y tair prif thema genedlaethol, sef:

- **Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
  - Trosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd
  - Y blynyddoedd cynnar
  - Addysg statudol
  - Addysg ar ôl oed gorfodol
  - Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau
- **Thema 2: Cynyddu defnydd y Gymraeg**
  - Y gweithle
  - Gwasanaethau
  - Defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- **Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**
  - Y gymuned a'r economi
  - Diwylliant a'r cyfryngau
  - Cymru a'r byd ehangach
  - Technoleg ddigidol
  - Isadeiledd ieithyddol
  - Cynllunio ieithyddol
  - Gwerthuso ac ymchwil

5.5 Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd partneriaid y Cyngor i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth gyflawni'r ail strategaeth yma ac felly bydd holl feysydd gwasanaeth y Cyngor yn cael eu hannog i barhau i feithrin eu perthynas â'r partneriaid sydd wedi'u nodi yng nghynllun gweithredu'r strategaeth. Caiff hyn ei gytuno arno maes o law ar ôl cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Bydd y

Cynllun Gweithredu drafft yn destun craffu cyn cael ei gymeradwyo gan y pwyllgor hwn ac yna'n destun craffu blynyddol yn ystod ei gyfnod 5 mlynedd.

**6 <u>GOBLYGIADAU O RAN CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH/Y DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL</u>**

6.1 Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth/y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi'i gwblhau ac mae i'w weld yn Atodiad 3.

**7 <u>GOBLYGIADAU O RAN Y GYMRAEG</u>**

7.1 Mae'r adroddiad yma wedi'i osod ger bron yr Is-bwyllgor yn unol â Safon 146 Safonau'r Gymraeg.

7.2 Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gwblhau ac mae i'w weld yn Atodiad 4.

**8 <u>YMGYNGHORI</u>**

8.1 Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal yn 2021 ynghyd â thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y cyfnod drafftio ar gyfer y strategaeth newydd.

**9 <u>GOBLYGIAD(AU) ARIANNOL</u>**

9.1 Does dim goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma. Serch hynny, bydd costau ac adnoddau i'w pennu mewn perthynas â gweithredu unrhyw strategaeth newydd a'r cynllun gweithredu sy'n dod yn ei sgil.

9.2 Gallai peidio â chydymffurfio â Safon olygu cosbau ariannol o hyd at £5,000.

**10 <u>GOBLYGIADAU CYFREITHIOL *NEU* DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL</u>**

10.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau Statudol y Gymraeg 2015 sy'n rheoleiddio maes y gwaith yma. Mae'r strategaeth hefyd yn cysylltu â Strategaeth Mwy na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol) a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013).

**11. <u>CYSYLLTIADAU Â BLAENORIAETHAU CORFFORAETHOL A CHENEDLAETHOL YNGHYD Â DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</u>**

11.1 Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yn y Cynllun Corfforaethol ac yn effeithio ar yr holl flaenoriaethau corfforaethol gan fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio diwygiedig a gafodd ei gyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

11.2 Mae Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol yn cael ei osod ger bron Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n amlinellu gwaith y Cyngor wrth gydymffurfio â safonau statudol o ran y Gymraeg a fydd yn cyfrannu at nod tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r gwaith i gyflawni'r safonau yma'n golygu cydweithio gyda phartneriaid a thrigolion i hwyluso ystod eang o gyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled y sir.

11.3 Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o Nod 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu at greu Cymru sy'n fwy cyfartal trwy ddarparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg, os ydyn nhw'n dymuno.

## 12 CASGLIAD

12.1 Bydd Strategaeth Hybu’r Gymraeg 2022-27 yn defnyddio llwyddiannau'r strategaeth gyntaf yn sail fel bod modd i wasanaethau’r Cyngor a’n partneriaid barhau i greu effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg i drigolion Rhondda Cynon Taf.

12.2 Bydd mabwysiadu'r tair thema allweddol sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'i strategaeth 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' yn egwyddorion trefniadol ein strategaeth ddiwygiedig yn ei llywio'n well ac yn caniatáu i ddangosyddion cyflawniad priodol gael eu nodi a'u mesur.

Tudalen wag

**Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027**

Hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd ohoni
yn Rhondda Cynon Taf

Wedi'i pharatoi yn unol â gofynion Safon 145,
Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

This document is available in English

## Strategaeth Hybu'r Gymraeg

### Trosolwg

Dyma strategaeth 5 mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer hybu'r Gymraeg. Mae wedi'i pharatoi yn unol â gofynion Safon 145, Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'n disodli strategaeth hybu gyntaf y Cyngor a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 2017-2022. Cafodd y strategaeth newydd hon ei chymeradwyo gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg ar xx xx 2022.

Mae'r Strategaeth hon yn esbonio sut bydd y Cyngor yn hybu'r Gymraeg ac yn hwyluso'r defnydd ohoni yn ehangach yn ardal Rhondda Cynon Taf a bydd ei gweithrediad yn destun craffu rheolaidd gan Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion y Gymraeg.

### Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r strategaeth hon, cysylltwch â:

Uned Gwasanaethau Cymraeg swyddogiaith@rctcbc.gov.uk

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Gair o gyflwyniad gan yr Arweinydd** | **4** |
| 2 | **Ein Gweledigaeth** | **5** |
| 3 | **Cyd-destun** | **6** |
| 4 | **Y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf** | **10** |
| 5 | **Meysydd blaenoriaeth y strategaeth** | **15** |

## Gair o gyflwyniad gan yr Arweinydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ail strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer hybu'r Gymraeg.

Mae'r strategaeth hon yn barhad o strategaeth 2017-2022, cyfnod a welodd heriau aruthrol, gydag effeithiau llifogydd a phandemig Covid-19 yn ffocws annatod i'n hymdrechion fel Cyngor. Ond roedd hefyd yn gyfnod lle gwelsom sefydlogi a thwf o ran yr iaith Gymraeg.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gennym ni a'n partneriaid i hybu a hyrwyddo'r iaith dros y pum mlynedd diwethaf. Ynddi mae nodau newydd sy'n ymateb i anghenion a heriau newydd. Yn ogystal, mae'n eistedd ochr yn ochr â'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 fel ein bod ni, fel Cyngor, yn chwarae ein rhan yn llawn wrth anelu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae twf addysg Gymraeg yn hollbwysig i gynyddu niferoedd siaradwyr a bydd y Strategaeth Hybu yn ategu ein CSCA newydd gan sicrhau cyfleoedd y tu allan i furiau'r ysgol i blant a phobl ifanc ddefnyddio'u Cymraeg yn gymdeithasol ac yna wrth iddynt barhau â'u taith i fyd gwaith a hyfforddiant.

Mae'r iaith Gymraeg yn perthyn i bawb ac mae ein trigolion wedi mynegi eu hawydd am fwy o gyfleoedd i siarad yr iaith, i glywed ac i ddysgu'r iaith yn eu cymunedau. Felly, mae'r strategaeth hon wedi'i llunio gyda dyheadau ein trigolion yn ganolog iddi.

Wrth gwrs, mae hanes hir a chyfoethog i'r iaith ers canrifoedd yn y cymoedd hyn, o groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol gyntaf i Aberdâr yn 1861, i gynnal Eisteddfod Genedlaethol 2024 yma yn y sir. Rydym yn estyn croeso cynnes i weddill Cymru i ymuno â ni i ddathlu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf a'r holl gyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd a ddaw yn sgil hynny. Bydd cynnal Gwaddol Eisteddfod Genedlaethol 2024 i'r dyfodol yn allweddol ac mae'r strategaeth hon yn chwarae rhan bwysig drwy sicrhau bod y cyfleoedd hynny yn gwreiddio ac yn ffynnu, fel bod y Gymraeg yn cyfoethogi bywydau holl drigolion Rhondda Cynon Taf.

**Y Cynghorydd Rhys Lewis**

**Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg**

# Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu Rhondda Cynon Taf yn sir gwbl ddwyieithog. Bwrdeistref Sirol lle mae modd i drigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth, trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ardal lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n gwbl naturiol ac mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau.

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ac rydym am gynnwys y rheini nad ydynt yn siarad yr iaith wrth i ni gyd ymfalchïo ynddi a'i hanes yn yr ardal hon, a'i chyfraniad at ein diwylliant, ein heconomi a'n hunaniaeth.

**Er mwyn chwarae ein rhan ni yn y weledigaeth genedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 bydd angen sicrhau cynnydd o 5% neu fwy ar ffigur 2021 o siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf[1].**

Byddwn yn mynd ati dros y 5 mlynedd nesaf i sicrhau mwy a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ac i glywed yr iaith drwy amrywiaeth o weithgareddau gan adrodd yn rheolaidd ar gynnydd.

### Gwireddu'r weledigaeth

Mae ein blaenoriaethau strategol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth yn dilyn tri maes strategol Llywodraeth Cymru yn ei strategaeth hithau ar gyfer y Gymraeg, sef Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr. Er mwyn cyflawni'r Strategaeth byddwn yn mabwysiadu cynllun gweithredu (i'w baratoi/gytuno wedi i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ddod i law) gyda thargedau yn cwmpasu'r holl flaenoriaethau strategol. Bydd y cynllun gweithredu yn ddogfen fyw, a bydd modd ei haddasu yn hawdd ac yn rheolaidd, gan ein galluogi ni i fod yn hyblyg, yn flaengar ac yn ymatebol wrth weithredu'r strategaeth dros y 5 mlynedd. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid lleol a chenedlaethol i wireddu'r nodau yn y Strategaeth Hybu hon. Mae **adran 5** yn manylu ar sut byddwn ni'n trefnu ein gwaith.

---

[1] Byddwn yn diwygio'r strategaeth hon i sicrhau mwy o eglurder ar y ganran hon a'r niferoedd cysylltiedig pan fydd ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gael inni.

## Cyd-destun

Mae'r Strategaeth Hybu yn bodoli mewn cyd-destun polisi ehangach ar gyfer ffyniant cymunedau a'r Gymraeg.

**Mesur y Gymraeg**

Mae llunio strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn ofyniad statudol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Safonau'r Gymraeg 145 a 146). Mae gofyn i'r Cyngor:

- Lunio a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal
- Cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd
- Egluro sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

Mae Safonau'r Gymraeg yn eu cyfanrwydd yn fframwaith statudol i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg gan y Cyngor yn y pum maes canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisïau sy'n hybu'r Gymraeg
- Gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cadw cofnodion am y Gymraeg
- Hybu'r Gymraeg.


Mae llunio strategaeth hybu yn ofyniad o dan y dosbarth olaf hwn o safonau ond mae'r safonau llunio polisi yn allweddol i'r cyd-destun ehangach mae'r strategaeth yn bodoli ynddo. Bwriad y safonau llunio polisi yw creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ym mhob penderfyniad polisi a wneir gan y Cyngor.

Gall asesu effeithiau penderfyniadau polisi amlygu effaith bositif a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gynyddu'r effaith bositif honno o ran y Gymraeg. Y gobaith gyda'r strategaeth hon yw y bydd yn amlygu cysylltiadau a chyfleoedd uniongyrchol ac anuniongyrchol i feysydd polisi eraill y Cyngor.

**Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr**

Mae Cymraeg 2050, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy hybu a hwyluso'r Gymraeg, yn strategaeth gynhwysfawr

ag iddi weledigaeth hirdymor. Mae'n seiliedig ar dair thema graidd:




Mae Strategaeth Hybu Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2022-2027 yn crisialu'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i gefnogi'r weledigaeth hon ac rydym felly wedi diweddaru'r strategaeth gyda'n blaenoriaethau wedi'u trefnu yn ôl tri maes thematig Cymraeg 2050. Byddwn yn gweithio fesul pum mlynedd at y nodau hyn gan bennu gweithgareddau yn y tri maes blaenoriaeth.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032**

Mae llunio Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn ofyniad statudol, a'r nod yw cynyddu nifer y disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg yn y sir. Mae'r CSCA yn amlinellu'n fwy penodol sut bydd y Cyngor yn mynd ati i gynyddu canran dysgwyr Blwyddyn 1 mewn addysg Gymraeg rhwng 8% a 12% sef cynnydd o 506 o ddysgwyr (yn 2019) i ffigur rhwng 720 a 825 o ddysgwyr erbyn 2032. Mae hyn yn gyfraniad uniongyrchol at darged hirdymor y strategaeth genedlaethol o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

I gyd-fynd â'r targed hwn ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, mae'r cynllun strategol yn amlinellu sut bydd y Cyngor yn mynd ati i gyflawni nifer o ganlyniadau penodol sy'n cynnwys y blynyddoedd cynnar, addysg drochi, darpariaeth well i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mwy o gyfleoedd anffurfiol i ddisgyblion ddefnyddio'r iaith yn yr ysgol, mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau yn Gymraeg a chynyddu nifer y staff sy'n gallu dysgu yn Gymraeg.

Mae’r cynllun strategol hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd marchnata a hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithrwydd yn Rhondda Cynon Taf yn ogystal â chydweithio’n agos â phartneriaid.

Mae cyswllt agos iawn felly rhwng y CSCA a'r Strategaeth Hybu ac yn benodol â Thema 1 o ran cynyddu nifer y siaradwyr. Mewn gwirionedd dim ond drwy CSCA cryf ac uchelgeisiol y bydd modd i’r Cyngor lwyddo i gyflawni’r ymrwymiad hwn ond mae’n hollbwysig i’r Strategaeth Hybu weithio law yn llaw i sicrhau’r cyfleoedd gorau i gynyddu defnydd. Er mwyn osgoi dyblygu ni fydd y strategaeth hon yn ailadrodd camau gweithredu’r CSCA ond dylid ystyried y CSCA fel prif arf Thema 1.

**Mwy na Geiriau**

Mwy na geiriau yw'r fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Lansiwyd y fframwaith gwreiddiol yn 2012, a fframwaith olynol yn 2016. Mae Mwy na Geiriau yn amlygu’r ffaith bod gofal ac iaith yn mynd law yn llaw ac y gallai ansawdd gofal gael ei beryglu drwy fethiant i gyfathrebu gyda phobl yn eu hiaith gyntaf. Yn ganolog i’r fframwaith yw egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sef bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnig yn hytrach na bod pobl yn gorfod gofyn amdanynt.

Mae gan y Cyngor gamau mewn lle i wireddu disgwyliadau’r fframwaith o safbwynt ei wasanaethau cymdeithasol a gofal ac mae’n brif bartner ar y Fforwm Mwy na Geiriau lleol sy’n dwyn partneriaid ynghyd i rannu arferion da a sicrhau cynnydd yn y camau gweithredu.

**Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol**

Nod Cynlluniau Llesiant lleol yw cynnig agwedd fwy cyfannol o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ffordd well o integreiddio’r deddfau, y dyletswyddau a’r fframweithiau cynllunio perthnasol.

Mae’r Strategaeth Hybu yn chwarae rhan greiddiol wrth i’r Cyngor gyflawni un o’r nodau llesiant yn benodol, sef ‘Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu”. Serch hynny, mae’n bwysig cydnabod bod cyswllt agos iawn rhwng yr iaith a’r nodau llesiant eraill, a phwysigrwydd partneriaethau a fframweithiau ehangach.

Yn ganolog i Gynllun Corfforaethol Rhondda Cynon Taf mae **Pobl**, **Lleoedd** a **Ffyniant** a’r bwriad gyda nod llesiant ‘diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu’ yw rhoi ffocws ar sicrhau mwy o gyfleoedd i bobl ym maes y celfyddydau a diwylliant; denu pobl ifanc at brofiadau cadarnhaol ym maes diwylliant a chwaraeon a sicrhau bod mwy o gyfleoedd i drigolion ddefnyddio’r Gymraeg. Fel rhan o hyn mae’r Cyngor yn bwriadu cynnal mwy o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon mewn parciau ledled y fwrdeistref a chynllunio’n ofalus ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2024 a’i gwaddol. Bydd yn hyrwyddo Rhondda Cynon Taf fel cyrchfan i ymwelwyr ac yn sicrhau mynediad cyfartal i’r Gymraeg ar draws pob gwasanaeth.

Mae dangosyddion cenedlaethol ynghlwm â'r Ddeddf Llesiant sy'n mesur cynnydd yn nhermau niferoedd siaradwyr Cymraeg a bydd y data hyn yn allweddol wrth olrhain cynnydd gyda'r strategaeth hon:

- Y ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg (Dangosydd Cenedlaethol 36)
- Nifer y bobl a all siarad Cymraeg (Dangosydd Cenedlaethol 37)

Wrth gwrs, mae nifer helaeth o'r dangosyddion cenedlaethol eraill sy'n ymwneud â chymunedau cydlynus, ffyniant, iechyd, cynhwysiant digidol ac yn y blaen, oll yn chwarae eu rhan i sicrhau gwell cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

**Eisteddfod Genedlaethol 2024**

Un o brif uchafbwyntiau'r 5 mlynedd nesaf o ran hybu'r Gymraeg fydd ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol â Rhondda Cynon Taf yn 2024. Er mwyn sicrhau'r budd cymunedol gorau posibl yn y blynyddoedd yn arwain at yr Eisteddfod yn 2024 a'r gwaddol a ddaw yn ei sgil i'r ardal, rydym wedi penodi Swyddog Eisteddfod. Ar y cyd â swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith bydd ein Swyddog yn cydlynu rhaglen o weithgareddau i weithio'n agos ag ysgolion, grwpiau cymunedol a'r sector preifat. Y nod yw adeiladu perthynas hir a pharhaol rhwng y Cyngor a chymunedau lleol gan gynyddu cyfleoedd yn y sir i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg gyda mwy o gyfleoedd artistig a chreadigol.

Bydd gan ein trigolion le canolog yn y gwaith wrth ddod yn wirfoddolwyr ac yn bencampwyr ar gyfer eu hardaloedd i'n helpu i gyflwyno'r Eisteddfod i bob cwr o'r sir ac i deimlo'n rhan werthfawr o'u cymunedau lleol. Ein gobaith yw cynnal y brwdfrydedd y tu hwnt i 2024 gan barhau i ddathlu a hyrwyddo hanes, diwylliant a threftadaeth Rhondda Cynon Taf fydd yn ei dro yn hwb i dwristiaeth a'r economi lleol.

## Y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

### Cymuned o gymunedau

Mae Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu ardal eang iawn – mae'r sir yn ymestyn o Fannau Brycheiniog yn y gogledd i gyrion Caerdydd yn y de. Oddi mewn i'r sir mae tair ardal benodol sef Taf Elái, Cynon a'r Rhondda. Er nad oes pellter maith rhwng yr ardaloedd fel yr hed y frân, mae'r tair ardal yn annibynnol ac yn wahanol iawn i'w gilydd, yn gymysgedd o ardaloedd trefol, rhannol drefol a gwledig.

Rhondda Cynon Taf yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru o ran poblogaeth (241,873 yn ôl amcangyfrif y Llywodraeth yn 2020), ac yn ôl ffigurau'r Llywodraeth, Rhondda Cynon Taf yw un o'r siroedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae nifer uchel o ardaloedd y sir – yn y gogledd a chanol y sir yn bennaf – ymhlith y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn yn gosod heriau sylfaenol i'r awdurdod lleol o ran iechyd, lles, cyflogaeth a sgiliau pobl yr ardal.


Mae 6 thref yn y sir a 62 o bentrefi, er bod natur fwy trefol i rai o'r pentrefi hynny. Dwy dref fawr sydd yn y sir sef Aberdâr a Phontypridd sydd â thua 30,000 o drigolion yr un, ac mae'r ddwy dref hon wedi gweld buddsoddiad mawr o ran adeiladwaith, strwythur a datblygiadau cymunedol.

Yn ôl StatsCymru, yn seiliedig ar ffigurau 2018, rhagwelir bydd poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn cynyddu i 248,098 erbyn 2032. Yr her i'r sir o ran tyfu niferoedd siaradwyr yw'r ffaith y rhagwelir gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau (er enghraifft amcangyfrifir bod 2,831 o blant 5 oed yn y sir yn 2021, yn syrthio i 2,621 o blant 5 oed erbyn 2032).

### Siaradwyr Cymraeg

Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011, roedd gan y sir **27,779** o siaradwyr Cymraeg, sy'n cynrychioli **12.3%** o'r boblogaeth ond bydd rhaid aros ychydig eto nes bydd ffigurau Cyfrifiad 2021 ar gael er mwyn cael darlun clir o gynnydd a'r meysydd y bydd angen i ni fynd i'r afael â nhw, gan ddiweddaru'r strategaeth hon yn unol â hynny.

Mae'r map sy'n dilyn yn rhoi darlun mwy gweledol o ble mae siaradwyr Cymraeg Rhondda Cynon Taf yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011 fesul ward. Mae'r mannau coch mwy tywyll yn dynodi nifer uwch o siaradwyr Cymraeg na'r rhannau golau. Mae 14 ward allan o'r 36 â chanrannau uwch na'r cyfartaledd sirol (12.3%) o siaradwyr Cymraeg gyda chlystyrau mwy o gymunedau a chanrannau uwch yn ne'r sir, tra bod pocedi o ganrannau uwch yng nghymunedau gogleddol y Sir.




## Gweithlu

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gyflogwr mawr yn yr ardal ac yn ymrwymedig i sicrhau cyfleoedd i'r holl weithlu feithrin ymwybyddiaeth o'r iaith, ei dysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn hefyd yn ffordd uniongyrchol i ni chwarae ein rhan yn y gwaith o gynyddu niferoedd ein siaradwyr Cymraeg.

Mae'r tabl syml isod yn crisialu'r gwaith a wnaed hyd yma:

| **Staff y Cyngor – sgiliau Cymraeg** (nid yw'r ffigurau'n cynnwys staff sy'n gweithio mewn ysgolion) | **2017-2018** | **2020-2021** |
|---|---|---|
| Dim sgiliau Cymraeg | 66.99% | 44.40% |
| Sgiliau Lefel 1 | 22.12% | 39.64% |
| Rhugl | 5.69% | 8.69% |

(gwelwyd cynnydd hefyd ym mhob un o'r lefelau eraill, 2-5)

Er bod cynyddu sgiliau Cymraeg y gweithlu wedi'i gwmpasu gan ofynion safonau eraill o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg 2015, mae'n wir dweud bod y gwaith hwn yn allweddol i gynyddu nifer ein siaradwyr a'r defnydd o'r Gymraeg erbyn 2050.

**Llais trigolion Rhondda Cynon Taf: "dysgu" "ymarfer" "defnyddio"**

Rhwng mis Medi a Hydref 2021, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus â thrigolion Rhondda Cynon Taf ar ddatblygu'r strategaeth newydd i hybu'r Gymraeg.

Gofynnwyd i drigolion beth fyddai'n eu helpu i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Yr ateb mwyaf cyffredin oedd "mwy o gyfleoedd i'w defnyddio" (55.6%). Dywedodd 15.7% o'r ymatebwyr y byddai "cyfle i ddysgu" yn eu helpu i ddefnyddio'r iaith, a 10.7% yn nodi "mwy o hyder". Ymhlith yr hyn a nodwyd gan ymatebwyr, roedd nodi pa aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg mewn siopau/caffis/bwytai a "mwy o bobl i siarad gyda nhw".

Gofynnwyd i drigolion ble roedden nhw'n defnyddio'r Gymraeg, gyda 53.4% yn dweud yn y cartref a 50% yn y gwaith.

Gofynnwyd a fyddai'r ymatebwyr, neu rywun roedden nhw'n eu hadnabod â diddordeb mewn dysgu'r iaith neu wella eu sgiliau. Nododd mwyafrif clir (59%) eu bod nhw, neu rywun roedden nhw'n eu hadnabod â diddordeb mewn dysgu neu wella sgiliau, gyda 13% arall yn nodi "efallai".

O ran y meysydd lle byddai pobl am weld rhagor o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, nododd 65.2% o'r ymatebwyr fod angen mwy o wasanaethau Cymraeg ym maes Gwasanaethau Ieuenctid. Yn ail daeth Blynyddoedd Cynnar ynghyd a Thwristiaeth a Pharciau (59.6%) a nododd 55.6% fod angen mwy o wasanaethau Chwaraeon a Hamdden yn Gymraeg.

O ran pa feysydd fyddai'n cael y budd gorau o'r gwasanaethau hyn, y prif themâu ddaeth i'r amlwg ym marn yr ymatebwyr oedd addysg, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau ieuenctid, gan awgrymu bod caffael iaith fel plentyn a normaleiddio defnydd o'r iaith i blant a phobl ifanc yn hanfodol i'r ymatebwyr. Ymhlith ymatebion eraill roedd yr angen i roi lle amlwg i'r Gymraeg wrth i'r Cyngor ymwneud â phobl ynghyd â hyrwyddo diwylliant yn ogystal â'r iaith.

Ymhlith rhai o'r sylwadau, cafwyd:

“Dydw i ddim yn teimlo bod digon o gyfleoedd i ddefnyddio’r iaith y tu allan i’r ystafell ddosbarth”

“Mae fy nghymuned leol i’w gweld yn falch i ddefnyddio’r iaith”

Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf, nodwyd

- Gwersi iaith am ddim neu am gost isel
- Rhoi’r Gymraeg yn gyntaf fel yr iaith ddiofyn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus
- Ehangu ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd lleol i leihau’r angen i deithio
- Amlygu’r Gymraeg mewn siopau a chaffis
- Cefnogaeth i rieni disgyblion mewn addysg Gymraeg
- Gwreiddio’r Gymraeg mewn mannau cymunedol a gweithgareddau yn y gymuned
- Anogaeth i staff ac ymwelwyr mewn siopau, caffis ac ati i ddefnyddio’r Gymraeg wrth ddechrau sgwrs.

Mewn arolwg arall a gynhaliwyd yn 2021, RhCT Gyda’n Gilydd, arolwg Helpu Cymunedau i Ffynnu, holwyd trigolion beth hoffent weld mwy ohono yn eu cymunedau. Mewn ymateb i’r cwestiwn hwnnw, nododd 42% mai eu dymuniad oedd gweld rhagor o gyfleoedd i ddysgu, i ddefnyddio ac i ymarfer y Gymraeg yn lleol yn eu cymunedau.



Felly mae awydd trigolion Rhondda Cynon Taf i fyw mewn cymunedau lle mae’r Gymraeg yn rhan o’u bywydau bob dydd yn eglur, a nod y strategaeth hon yw ymateb i ddyheadau pobl yn y meysydd dan sylw. Mae’r strategaeth yn ymrwymo’r Cyngor i ateb y galwadau hyn, sydd hefyd yn gydnaws â’r weledigaeth yn genedlaethol. Yn yr adran nesaf, rydym yn egluro seiliau thematig y strategaeth.

## Meysydd Blaenoriaeth y Strategaeth

Fel y nodwyd, mae ein strategaeth ar gyfer hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn seiliedig ar awydd ein trigolion i weld mwy o gyfleoedd i ddysgu'r iaith, i ymarfer yr iaith a'i defnyddio yn eu cymunedau.

Mae'r strategaeth wedi'i strwythuro o gwmpas 3 thema blaenoriaeth Cymraeg 2050 sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg; cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau amodau ffafriol i'r Gymraeg.

**Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**

Yn ôl y Llywodraeth, mae dau brif ddull o sicrhau miliwn o siaradwyr:

- trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall o fewn y teulu
- datblygu a chynnal sgiliau drwy addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth yn y Gymraeg i oedolion.

Rydym yn cydnabod cyfraniad pwysig trosglwyddo iaith o fewn y teulu ond hefyd yn pwysleisio pa mor allweddol yw'r system addysg fel y prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg newydd yn ardal Rhondda Cynon Taf. Felly bydd y strategaeth hon yn gweithio law yn llaw â'n Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032. Ochr yn ochr â'r CSCA a chyfleoedd i bobl ddysgu'r iaith yn y gymuned, byddwn yn trefnu ein gweithgareddau i ateb y nodau cenedlaethol oddi mewn i'n cyd-destun lleol ni.

1. **Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu**: cynyddu anogaeth a chefnogaeth i deuluoedd drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

2. **Y blynyddoedd cynnar**: ehangu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg.

3. **Addysg statudol**: cynnal a chryfhau system addysg statudol sy'n cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg hyderus.

4. **Addysg ôl-orfodol**: cefnogi a hyrwyddo darpariaeth sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle.

5. **Y gweithlu addysg**, **adnoddau a chymwysterau**: cefnogi mesurau i gynyddu a gwella:

– y gweithlu addysg a hyfforddiant sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

– yr adnoddau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth.

**Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Rydym am weld pob dysgwr yn gadael yr ysgol gyda'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle. I gefnogi'r datblygiadau ym myd addysg, mae angen i ni ddarparu cyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llu o sefyllfaoedd gwahanol sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Yn y pen draw, y weledigaeth yw bod pobl yn defnyddio'r iaith ar bob cyfle, a bod y cyfleoedd ar gael ym mhob man.

Bydd hyn yn golygu targedu cymorth mewn ffordd sy'n cydnabod gwahanol anghenion gwahanol bobl. Er enghraifft bydd gan siaradwyr newydd, neu rieni/gofalwyr heb sgiliau Cymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion Cymraeg, anghenion gwahanol i siaradwyr rhugl, hyderus. P'un a ydynt wedi'u magu gyda'r Gymraeg ers yn fabanod, neu wedi dysgu yn yr ysgol neu fel oedolion, iaith i bawb yw'r Gymraeg, a byddwn yn anelu at roi cyfleoedd i bawb ddefnyddio'r iaith.

Nodau:

**6. Y gweithle**: cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob adran o'r Cyngor drwy gynyddu hyder a sgiliau ein staff.

**7. Gwasanaethau:** cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a chynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

**8. Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg**: gan weithio gyda'n partneriaid yn lleol, cefnogi sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

**Thema 3: Creu amodau ffafriol i'r Gymraeg**

Er mwyn cefnogi'r ymdrechion i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg, mae angen creu amodau addas ac amgylchedd lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

Mae'r economi'n hanfodol er mwyn creu'r amodau cymdeithasol priodol i ddefnyddio'r Gymraeg. Er nad ydym yn gallu rheoli pob ffactor sy'n dylanwadu ar dwf economaidd, mae yna bethau y gallwn ddylanwadu arnynt. Er enghraifft,

- y pwys a roddir ar y Gymraeg
- swyddi sector cyhoeddus yn y Cyngor
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil gwerthfawr
- cyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hyn.

I gynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg, datblygu eu hyder i wneud hynny, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn amryw o leoliadau, mae angen cefnogaeth

adnoddau digidol, cyfryngau amrywiol, gwasanaethau cyfieithu sy'n manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg ac adnoddau ieithyddol diweddaraf. Mae'r rhain i gyd yn elfennau sy'n adlewyrchu ac yn cynnal statws y Gymraeg fel iaith fyw, ac maent yn hollbwysig ar gyfer siaradwyr Cymraeg ar bob lefel.

Er mwyn i'r strategaeth lwyddo, rhaid i ni rannu'r cyfrifoldeb am gynllunio ieithyddol gyda'n partneriaid, a thrwy hynny datblygu'r capasiti a'r arbenigedd yn y maes hwn a gwella'r ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd.

Ein gweledigaeth yw gweld y Gymraeg yn rhan arferol o fywyd bob dydd, gydag ewyllys da tuag ati a mwy o bobl yn ei defnyddio. Rydym am i'r Gymraeg fod yn berthnasol i bawb waeth a ydynt yn siarad Cymraeg, Saesneg neu iaith arall. Fel rhan o hyn, mae angen i ni wneud mwy i ddathlu'r Gymraeg fel rhan allweddol o'n diwylliant cyfoes.

Nodau:

**9. Cymuned a'r economi:** sicrhau bod y Gymraeg yn elfen amlwg wrth i'r Cyngor gefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol ardal Rhondda Cynon Taf.

**10. Diwylliant a'r cyfryngau:** sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant.

**11. Cymru a'r byd ehangach:** sicrhau bod y Gymraeg yn rhan ganolog o'n hymdrechion i groesawu a chymhathu pobl sy'n symud i Gymru ac i'r ardal hon. Chwilio am gyfleoedd i ddathlu ac ymgysylltu â'n diaspora Cymraeg.

**12. Technoleg ddigidol:** sicrhau bod y Cyngor yn chwarae ei ran wrth sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol.

**13. Seilwaith ieithyddol:** sicrhau bod seilwaith y Gymraeg (darpariaethau technolegol ac adnoddau iaith) yn parhau i ddatblygu ar gyfer cyflawni'r strategaeth hon.

**14. Cynllunio ieithyddol:** sefydlu gwaith cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn lleol fel elfennau hanfodol o waith polisi'r Cyngor, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi.

**15. Gwerthuso ac ymchwil:** parhau i adeiladu ar ein tystiolaeth a data am y Gymraeg a'i siaradwyr yn Rhondda Cynon Taf fel sail ar gyfer asesu effeithiolrwydd y strategaeth hon a datblygiadau polisi'r Cyngor o ran y Gymraeg.

## Gweithredu

Er bod y strategaeth hon yn ymwneud â'r meysydd y mae gan y Cyngor ddylanwad uniongyrchol drostynt, mae sicrhau llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio ymron pob maes. Mae nifer o'n partneriaid yn rhannu'r un blaenoriaethau â ni ac felly byddwn yn chwilio am bob cyfle i gyfuno ymdrechion a chefnogi eraill er mwyn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y fwrdeistref.

**Mesur Effaith**

Er mwyn gallu mesur effeithiolrwydd ein gweithgareddau, a datblygu polisïau yn y dyfodol ar sail tystiolaeth, mae'n hanfodol ein bod yn adnabod dangosyddion allweddol a pharhau i ddatblygu ein rhaglen o ddadansoddi data ac ymchwil ar gyfer y Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Byddwn hefyd yn cydweithio â phartneriaid i sicrhau ein bod yn deall effaith ein holl weithgareddau ar dwf y Gymraeg yn yr ardal a'r defnydd ohoni gan gasglu tystiolaeth ansoddol a meintiol i olrhain cynnydd.

Dewch i siarad RhCT
Let's talk RCT

# Dewch i Siarad

# Ymgynghoriad Y Gymraeg

Tachwedd 2021

RHONDDA CYNON TAF

## CYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Crynodeb** | 2 |
| 1. | **Cyflwyniad** | 4 |
| 2. | **Cefndir** | 4 |
| 3. | **Methodoleg** | 5 |
| 4. | **Prif Ganfyddiadau** | 6 |


## FFIGURAU


| Ffigur | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | **Map Rhyngweithiol, yn gwahodd ymwelwyr i osod pinnau a gwneud sylwadau** | 5 |
| 2 | **Ymatebion i'r arolwg: *"Ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?*** | 6 |
| 3 | **Ymatebion i'r arolwg: *"Beth allai eich helpu chi i ddefnyddio'ch Cymraeg yn fwy aml?"*** | 7 |
| 4 | **Ymatebion i'r arolwg: *"A fyddai gyda chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg neu wella'ch sgiliau/wella'i sgiliau?"*** | 7 |
| 5 | **Ymatebion i'r arolwg: *"O'r dewisiadau isod, ble hoffech chi weld gwasanaethau Cymraeg ychwanegol yn cael eu darparu?"*** | 8 |
| 6 | **Pinnau ar y map: *“Ble yn Rhondda Cynon Taf hoffech chi weld rhagor o wasanaethau Cymraeg?”*** | 10 |

# CRYNODEB

- Mae'r adran yma'n rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau Ymgynghoriad Dewch i Siarad RhCT ar y Gymraeg mewn perthynas â datblygu strategaeth y Gymraeg newydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

- Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal gan ddefnyddio gwefan ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor, Dewch i Siarad RhCT. Mae'r wefan yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg (Let's Talk RhCT).

- Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal rhwng 5 Medi a 5 Hydref 2021. Roedd dolenni i ddogfennau Strategaeth/Cynllun y Gymraeg presennol ar y wefan, yn ogystal â chais i ymwelwyr i'r wefan gymryd rhan naill ai mewn arolwg neu roi pinnau rhithwir ar fap rhyngweithiol. Hefyd, roedd fideo wedi'i chyflwyno gan yr awdur a'r darlunydd Siôn Thomas Owen ar y wefan i annog pobl i gymryd rhan (yn Gymraeg a Saesneg).

- Ar y cyd â'r ymgynghoriad ar-lein, cafodd tair sesiwn wyneb yn wyneb eu cynnal mewn llyfrgelloedd ar hyd a lled y Sir.

- Daeth 178 o ymatebion i'r arolwg i law, ac roedd 14 o gyfraniadau i'r map ar-lein, a oedd wedi gofyn i ymwelwyr "*Ble yn Rhondda Cynon Taf hoffech chi weld rhagor o wasanaethau Cymraeg*?".

- Mewn ymateb i'r cwestiwn "*Ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?*", dywedodd dros hanner y rheiny a oedd wedi ymateb eu bod nhw'n siarad Cymraeg gartref a/neu yn y gwaith.

- Yr ymateb mwyaf cyffredin i "*Beth allai eich helpu chi i ddefnyddio'ch Cymraeg yn fwy aml?*" oedd "rhagor o gyfleoedd i'w defnyddio", a hynny gan 55.6% o'r rheiny a oedd wedi ymateb.

- Yr ymatebion mwyaf cyffredin i "*Ble hoffech chi weld gwasanaethau Cymraeg ychwanegol yn cael eu darparu?*" oedd Gwasanaethau Ieuenctid (65.2%), Y Blynyddoedd Cynnar (59.6%) a Thwristiaeth a Pharciau (59.6%).

- Wrth ofyn "*Yn seiliedig ar eich ateb blaenorol, pa faes/feysydd gwasanaeth yn RhCT fyddai'n elwa fwyaf ar y gwasanaethau yma yn eich barn chi?*" y meysydd mwyaf cyffredin ymhlith yr atebion oedd addysg, dathlu treftadaeth a diwylliant Cymru a rhagor o fannau cymdeithasol wedi'u neilltuo i annog defnydd o'r Gymraeg.

- Roedd y cwestiwn "*Yn eich barn chi, oes gwell ymwybyddiaeth o'r Gymraeg dros y pum mlynedd diwethaf ac a oes mwy o bobl yn siarad Cymraeg yn ein hardal?*" wedi ysgogi ystod eang o sylwadau, o'r cadarnhaol iawn i'r negyddol iawn.

- Daeth llawer o awgrymiadau gwahanol i law wrth ofyn "*Sut y gallwn ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn eich barn chi?*". Roedd y rhain yn amrywio o ddysgu am ddim neu am bris rhad i well ddarpariaeth Gymraeg o ran gwasanaethau allweddol a ffyrdd i staff y sector preifat nodi eu sgiliau iaith a hwyluso sgwrsio drwy'r Gymraeg.

- Roedd cyfanswm o 175 o ymwelwyr wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â Dewch i Siarad RhCT (yn Gymraeg yn Saesneg) yn ystod yr ymgynghoriad yma. Roedd 345 o bobl ychwanegol wedi edrych ar ddogfennau a mwy nac un dudalen ar y gwefannau ac roedd 788 yn gwybod (ymwelwyd â'r gwefannau).

# 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma'n cyflwyno canfyddiadau Ymgynghoriad Dewch i Siarad RhCT ar y Gymraeg mewn perthynas â datblygu strategaeth y Gymraeg newydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf.

1.2 Mae Adran 2 yn amlinellu'n fras rywfaint o gefndir i'r broses ymgynghori.

1.3 Mae Adran 3 yn manylu ar y fethodoleg.

1.4 Mae Adran 4 yn nodi'r canfyddiadau allweddol.

1.5 Sylwch fod canfyddiadau gwefan Saesneg 'Let's Talk' wedi'u cyfuno â chanfyddiadau gwefan 'Dewch i Siarad' oni nodir yn wahanol.

# 2. CEFNDIR

2.1 Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn datblygu Strategaeth Hybu'r Gymraeg newydd ar gyfer 2022-27 i ddilyn y Strategaeth ar gyfer 2016-21.

2.2 Bydd y Strategaeth yma'n cysylltu â strategaeth genedlaethol 'Cymraeg 2050 – Miliwn o Siaradwyr' Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau bod y Cyngor yn cynnal y Safonau sydd wedi'u nodi yn y strategaeth genedlaethol.


2.3 Yn dilyn adolygiad annibynnol o Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2016-21 ym mis Gorffennaf 2021, a ddaeth i'r casgliad bod RhCT wedi bodloni Safonau 145 a 146 o Safonau'r Gymraeg, mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yma wedi'i gynnal er mwyn llywio gwaith datblygu cynllun pum mlynedd newydd. Gofynnodd yr ymgynghoriad i drigolion Rhondda Cynon Taf ddweud wrthon ni sut maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg, a ble, a ydyn nhw wedi sylwi ar gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y Sir, beth fyddai'n cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach ar hyd a lled y Sir a sut y gallai'r Cyngor wella ei ddefnydd a'i darpariaeth o adnoddau Cymraeg eu hiaith, yn eu barn nhw.

# 3. METHODOLEG




3.1 Roedd dau declyn rhyngweithiol ar y wefan i gasglu adborth gan ymwelwyr. Arolwg oedd y cyntaf, a oedd yn holi ymwelwyr am eu profiadau o ddefnyddio'r Gymraeg, eu barn ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a sut y gallai'r Cyngor newid gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyd a lled y Sir, neu eu gwella, yn eu barn nhw.

3.2 Roedd yr ail declyn yn caniatáu i ymwelwyr ychwanegu pinnau at fap ar-lein wrth ymateb i'r cwestiwn "*Ble yn Rhondda Cynon Taf hoffech chi weld rhagor o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?*", ynghyd ag ychwanegu sylw ar gyfer pob pin.




***Ffigur 1 – Map Rhyngweithiol, yn gwahodd ymwelwyr i osod pinnau a gwneud sylwadau***

3.2 Roedd cyfanswm o 175 o ymwelwyr wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â'r teclynnau ar y wefan Gymraeg a'r wefan Saesneg yn ystod yr ymgynghoriad yma. Roedd 345 o bobl ychwanegol wedi edrych ar ddogfennau a mwy nac un dudalen ar y gwefannau ac roedd 788 yn gwybod (ymwelwyd â'r gwefannau).

# 4. PRIF GANFYDDIADAU


**Arolwg**

4.1 Roedd arolwg byr wedi'i gynnwys ar wefan yr ymgynghoriad er mwyn cael adborth gan ymwelwyr. Daeth cyfanswm o 178 o ymatebion i law.

4.2.1 *Ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?*

Dywedodd 53.4% o'r rheiny a oedd wedi ymateb eu bod nhw'n defnyddio'r Gymraeg gartref, a 50% yn y gwaith. Dywedodd nifer isel o'r rheiny a oedd wedi ymateb (18.5%) eu bod nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchiad ar oedran y rheiny a oedd wedi ymateb. Serch hynny, doedd data demograffig ddim wedi'i gasglu yn rhan o'r arolwg yma.

Atebodd 26.4% "dim un o'r uchod".





***Ffigur 2 - "Ble ydych chi'n defnyddio'r Gymraeg?"***

Yn y bocs i ysgrifennu ymatebion eraill roedd pobl wedi cynnwys "gyda ffrindiau", "wrth siopa", "yn y Brifysgol" a "gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg".

4.2.2 *Beth allai eich helpu chi i ddefnyddio'ch Cymraeg yn fwy aml?*

Yr ateb mwyaf cyffredin o bell ffordd oedd "mwy o gyfleoedd i'w defnyddio", gyda 55.6% yn dewis yr ateb yma. Dywedodd 15.7% pellach o'r rheiny a oedd wedi ymateb y byddai "cyfle i ddysgu" yn eu helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy aml, a dewisodd 10.7% "mwy o hyder".

Dewisodd 15.2% “dim un o’r uchod”.





***Ffigur 3 - Beth allai eich helpu chi i ddefnyddio'ch Cymraeg yn fwy aml?***

Ymhlith yr ymatebion yn yr opsiwn i ysgrifennu atebion eraill oedd “nodi mewn siopau/caffis/bwytai pa gynorthwywyr sy’n siarad Cymraeg”, “mwy o gymorth i wella safon Cymraeg ysgrifenedig” a “mwy o bobl i siarad â nhw”.

4.2.3 *A fyddai gyda chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg neu wella'ch sgiliau/wella'i sgiliau?*

Dywedodd mwyafrif amlwg o’r rheiny a oedd wedi ymateb (59%) y byddai gyda nhw neu rywun maen nhw’n ei adnabod ddiddordeb mewn dysgu neu wella sgiliau Cymraeg. Atebodd 13% arall “efallai”.





***Ffigur 4 - "A fyddai gyda chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg neu wella'ch sgiliau/wella'i sgiliau?***

Yn yr opsiwn i ysgrifennu ateb eu hunain, dywedodd pob un o’r 7 ymatebydd a ddewisodd “arall” eu bod nhw eisoes yn siarad Cymraeg yn rhugl.

4.2.4 *O'r dewisiadau isod, ble hoffech chi weld gwasanaethau Cymraeg ychwanegol yn cael eu darparu?*

Nododd 65.2% o'r rheiny a oedd wedi ymateb fod angen rhagor o wasanaethau Cymraeg ar y Gwasanaethau Ieuenctid. Yr adrannau mwyaf poblogaidd wedyn oedd y Blynyddoedd Cynnar a Thwristiaeth a Pharciau, gyda 59.6% yn eu nodi. Hefyd, roedd dros hanner y rheiny a oedd wedi ymateb (55.6%) wedi nodi bod angen rhagor o wasanaethau Cymraeg ym maes Hamdden a Chwaraeon.




***Ffigur 5 - "O'r dewisiadau isod, ble hoffech chi weld gwasanaethau Cymraeg ychwanegol yn cael eu darparu?***

Roedd ymatebion gan y rheiny a ddewisodd ysgrifennu eu hateb eu hunain yn yr adran "arall" a’r cwestiwn “*A oes adrannau o'r Cyngor rydych chi'n gwybod amdanyn nhw a allai wella eu gwasanaethau Cymraeg?*” wedi nodi pryderon ynghylch darpariaeth ysgolion Cymraeg (yn enwedig yng ngogledd Pontypridd), diffyg staff sy’n siarad Cymraeg yn ateb galwadau ffôn ac

arwyddion. Mae nifer o'r rheiny a oedd wedi ymateb hefyd wedi nodi bod angen i bob adran wella.

Roedd mwy nag un o'r rheiny a oedd wedi ymateb (er mai lleiafrif oedden nhw) o'r farn bod gormod o arian ac ymdrech yn cael eu buddsoddi mewn gwasanaethau Cymraeg eisoes.

4.2.5 *Yn seiliedig ar eich ateb blaenorol, pa faes/feysydd gwasanaeth yn RhCT a fyddai'n elwa fwyaf ar y gwasanaethau yma, yn eich barn chi?*

Ymhlith y themâu allweddol yn yr ymatebion i'r cwestiwn yma mae addysg, y Blynyddoedd Cynnar a'r Gwasanaethau Ieuenctid, sy'n awgrymu bod teimlad cryf ymhlith y rheiny a oedd wedi ymateb bod caffael a normaleiddio defnydd o'r Gymraeg yn ystod plentyndod yn holl bwysig. Yn ddaearyddol, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y sylwadau, mae'r rhan fwyaf o'r Sir â'r potensial i elwa ar gynnydd mewn gwasanaethau Cymraeg.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys "mae angen i arweinwyr RhCT ddangos diddordeb yn y Gymraeg", "Y Gymraeg ddylai fod yr iaith gyntaf ar y ffôn gydag opsiwn Saesneg", "hyrwyddo diwylliant yn ogystal â'r iaith. Achlysuron Dydd Gŵyl Dewi, Eisteddfodau bach, rhoi cyfle i ysgolion neu glybiau chwaraeon brofi Cymru'n chwarae a chefnogi achlysuron". Roedd yr angen am fannau cymdeithasol gan gynnwys clybiau gwaith cartref, boreau coffi ac ati hefyd wedi'i godi.

4.2.6 *Yn eich barn chi, oes gwell ymwybyddiaeth o'r Gymraeg dros y pum mlynedd diwethaf ac a oes mwy o bobl yn siarad Cymraeg yn ein hardal?*

Mae'r atebion i'r cwestiwn yma yn amrywio'n fawr, o'r cadarnhaol iawn i'r negyddol iawn. Mae'r pwyntiau sydd wedi'u codi yn y sylwadau yn cynnwys "Dydw i ddim yn meddwl bod digon o gyfleoedd i ddefnyddio [Cymraeg] y tu allan i'r ystafell ddosbarth", "mae fy nghymuned leol i'w gweld yn falch o ddefnyddio'r iaith", "mae yna deimlad amlwg yn erbyn y Gymraeg ymhlith rhai sydd angen mynd i'r afael ag ef" ac "oes, mewn cymunedau bach o amgylch yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ac oes mewn perthynas ag oedolion sy'n dysgu".

4.2.7 *Yn eich barn chi, sut y gallwn ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf?*

Mae'r themâu allweddol yn yr ymatebion i'r cwestiwn yma yn cynnwys dysgu Cymraeg am ddim neu am bris rhad, gwneud y Gymraeg yn ddewis diofyn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, ysgolion mewn ardaloedd lleol i leihau gofynion teithio, y Gymraeg mewn siopau a chaffis, cyrsiau a chefnogaeth i rieni disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg a phwysigrwydd gwreiddio'r Gymraeg mewn mannau a gweithgareddau cymunedol.

Roedd nifer o awgrymiadau am gynllun bathodynnau i annog staff ac ymwelwyr mewn siopau, caffis, ac ati i ddefnyddio'r Gymraeg wrth sgwrsio.


**Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr holl ymatebion i'r arolwg a ddaeth i law ar wefannau Let's Talk a Dewch i Siarad RhCT.**

**Map Rhyngweithiol:**

4.3 Roedd y map rhyngweithiol yn galluogi'r rheiny a oedd wedi ymateb i osod pin ar fap o'r ardal, yn ogystal â rhoi sylw. Y cwestiwn ar gyfer y map yma oedd "*Ble yn Rhondda Cynon Taf hoffech chi weld rhagor o wasanaethau Cymraeg?*".

4.4 Roedd 14 o ymatebion ac 15 o binnau ar ochr Let's Talk y wefan, a dim un ar yr ochr Dewch i Siarad RhCT. Mae Ffigur 5 yn dangos dosbarthiad y pinnau, gyda'r mwyafrif (11) yn ardal Pontypridd/Ynys-y-bwl. **Mae'r ymatebion cysylltiedig i'w gweld yn Atodiad 2.**

4.5 Mae'r mwyafrif o'r ymatebion yn ymwneud ag addysg Gymraeg a darpariaeth ysgolion Cymraeg, yn enwedig cau cyfleusterau cynradd Cymraeg ym Mhontypridd.




***Ffigur 6 – "Ble yn Rhondda Cynon Taf hoffech chi weld rhagor o wasanaethau Cymraeg?"***

Tudalen wag

**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfennaeth yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy’n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Mapio'r Dyletswyddau - Cymru sy’n fwy cyfartal' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

Atodiad 3



**ADRAN 1 - MANYLION Y CYNNIG**

Swyddog Arweiniol: Steffan Gealy

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Wendy Edwards

Gwasanaeth: Gwasanaethau Cymuned

Dyddiad: 21/4/22

1.a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

| Strategaeth/Cynllun | Ail-Fodelu Gwasanaeth / Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Swydd |
|---|---|---|---|---|
| ☒ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**1.b) Beth yw enw'r cynnig?**

Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-27

**1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Strategaeth Bum Mlynedd i hwyluso a hybu'r Gymraeg yn y sir o dan Safon 145 yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd wedi'i gyhoeddi dan adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cafodd y Strategaeth Bum Mlynedd gyntaf ei chymeradwyo yn 2016 a'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 30 Hydref 2016. Cafodd y Strategaeth hon ei hadolygu a chafodd y Cynllun Gweithredu cysylltiedig ei asesu gan sefydliad allanol (Nico Cyf) yn unol â gofynion strategol.

Dyma'r ail Strategaeth Bum Mlynedd sy'n manteisio ar y gwaith y mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi'i wneud i hybu a hwyluso'r Gymraeg yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Yn rhan o'r Strategaeth, mae'n ofynnol i'r Cyngor bennu targed canrannol ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ein hardal erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw.

Y weledigaeth yw datblygu Rhondda Cynon Taf yn sir gwbl ddwyieithog; Bwrdeistref Sirol lle mae modd i drigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â chael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Bydd y Strategaeth hon yn parhau i ganolbwyntio ar y 3 phrif thema genedlaethol sydd wedi'u nodi isod:

Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (gan ganolbwyntio ar drosglwyddo iaith yn y teulu; y blynyddoedd cynnar; addysg statudol; addysg ôl-orfodol; y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau)

Thema 2: Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg (gan ganolbwyntio ar y gweithle; gwasanaethau, defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol)

Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun (yn benodol yn y gymuned a'r economi; diwylliant a'r cyfryngau; Cymru a'r byd ehangach; technoleg ddigidol; seilwaith ieithyddol; cynllunio iaith; gwerthuso a gwaith ymchwil)

Mae'r Strategaeth wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein ac wyneb yn wyneb ac mae'r adborth yma, yn ogystal â'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn y gwerthusiad o'r Strategaeth flaenorol a'r Cynllun Gweithredu blaenorol, wedi'u hadlewyrchu yn y ddogfen.

Nid oes modd i'r Cyngor gyflawni amcanion y Strategaeth ar ei ben ei hun. Bydd holl bartneriaid y Cyngor yn chwarae rôl allweddol wrth gyflawni'r ail strategaeth hon, ac o ganlyniad i hynny bydd holl feysydd gwasanaeth y Cyngor yn cael eu hannog i feithrin perthynas â'r partneriaid sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth er mwyn cyflawni'r targedau yma.

**1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.**

Mae'r ddeddfwriaeth a'r sbardunau canlynol wedi dylanwadu ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg:

- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac roedd y Mesur yma wedi sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg. Mae rôl y Comisiynydd yn cynnwys hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd y mesur wedi sefydlu'r egwyddorion cyffredinol sy'n nodi na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg RhCT yn sicrhau bod yr egwyddorion yma yn cael eu gweithredu yn RhCT.

Mae’r Mesur hefyd yn gosod safonau ar gyrff gwahanol. Bwriad y safonau hyn yw rhoi effaith gyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru.

- Is-ddeddfwriaeth sy’n cynnwys rhestr o safonau y mae modd i Gomisiynydd y Gymraeg eu gosod ar bob corff perthnasol yw Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r Comisiynydd wedi llunio Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac mae modd ei ddefnyddio fel canllaw i gefnogi'r broses o weithredu'r safonau. Derbyniodd Cyngor RhCT ei Hysbysiad Cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015. Roedd yr Hysbysiad Cydymffurfio yma'n nodi pa safonau y mae gofyn i'r Cyngor gydymffurfio â nhw a dyddiad cydymffurfio ar gyfer y safonau hynny.

Mae Safon 145 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor ysgrifennu a chyhoeddi strategaeth a chynllun gweithredu bob 5 mlynedd. Mae Safon 146 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni asesu'r strategaeth ar ddiwedd y pum mlynedd, gan gynnwys:

(a) asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth ac wedi bodloni targedau sydd wedi'u pennu,

(b) cyhoeddi’r asesiad hwnnw ar ein gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal, a'u hoedran;

(ii) rhestr o’r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu’r defnydd o’r Gymraeg.

- Cymraeg 2050 yw Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Y weledigaeth yw y bydd y Gymraeg yn ffynnu erbyn y flwyddyn 2050, bydd nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cyrraedd miliwn, a bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheiny sydd ddim yn siarad Cymraeg mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith a chydnabyddiaeth gan bawb o’i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru.

Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg RhCT yn cyd-fynd â'r weledigaeth hon ac yn cynnwys y 3 blaenoriaeth a'r meysydd ffocws sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon.

- 'Mwy na geiriau' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau iaith Gymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Lansiwyd y fframwaith gwreiddiol yn 2012, a diweddarwyd y fframwaith yn 2016. Mae'r ddogfen yn nodi bod iaith ac iechyd yn mynd law yn llaw a bod modd i ansawdd y gofal gael ei effeithio'n anffafriol os nad oes modd i'r person gyfathrebu yn ei d(d)ewis iaith. Ei nod yw sicrhau bod anghenion ieithyddol

siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu ac un o'i amcanion, sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27 arfaethedig, yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol.

• Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cyfrannu at nifer o'r nodau Llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gan gynnwys:

- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru iachach
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

• Mae'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd yn Fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer ….

• Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)

• Mae'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu 2021-26 Llywodraeth Cymru sy'n ymrwymo i:

- Ddeddfu i gryfhau a chynyddu ein darpariaeth mewn addysg Gymraeg.
- Ehangu cyfran y gweithlu addysg sy'n gallu addysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau i symud tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

• Mae'r Gymraeg yn thema drawstoriadol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn effeithio ar y tri phrif flaenoriaeth:

- sicrhau bod pobl yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus.
- creu lleoedd y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw.
- galluogi Ffyniant, creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuraidd ac i gyflawni eu potensial a ffynnu.

• Mae yna gysylltiad agos a rhyngberthynas rhwng Strategaeth Hybu'r Gymraeg RhCT a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032, mae'r ddwy ddogfen yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a datblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg ym mhob ysgol yn ogystal â mewn lleoliadau yn y gymuned.

**1.e) Amlinellwch pwy mae'r cynnig yma'n effeithio arno:**

- Defnyddwyr Gwasanaeth ☒
- Gweithwyr ☒
- Y Gymuned Ehangach ☒

**ADRAN 2 - PRAWF SGRINIO - A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?**

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod y gallai fod gan unigolyn fwy nag un nodwedd warchodedig.

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(Grwpiau oedran penodol h.y.* | Cadarnhaol | Pob oedran:<br><br>Mae'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn | <br><br>Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019/22 yn |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| *pobl ifainc neu bobl hŷn)* | | RhCT. O ganlyniad i hynny, bydd y Strategaeth o fudd i bob trigolyn sy'n nodi'r Gymraeg fel ei (d)dewis iaith ar gyfer cyfathrebu. Mae'n amlygu'r gwaith fydd yn cael ei wneud gan wasanaethau'r Cyngor a'u partneriaid i sicrhau cynifer o gyfleoedd ag sy'n bosibl, o fanteisio ar wasanaethau'r Cyngor drwy'r Gymraeg i ddarparu gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.<br><br>Mae'r Strategaeth yn eang iawn ac yn canolbwyntio ar 3 thema allweddol:<br><br>- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg<br>- cynyddu defnydd o'r Gymraeg<br>- creu amodau sy'n annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg<br><br>Pobl hŷn:<br><br>Trwy sicrhau bod y Cyngor a'i bartneriaid yn ystyried y Gymraeg yn rhan o'r gwasanaethau a'r wybodaeth sy'n cael eu darparu, a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal, bydd modd sicrhau bod yr anghenion sydd gan bobl hŷn er mwyn ymgysylltu â gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu bodloni. Bydd hyn yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymhlith y grŵp oedran yma. | amlinellu ymrwymiad y Cyngor i ddarparu arweinyddiaeth gymunedol gref a gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf er mwyn eu galluogi nhw i gyflawni eu potensial ac i ffynnu.<br><br>Sgiliau Cymraeg Trigolion RhCT yn ôl Cyfrifiad 2011:<br><br>Yn gallu darllen Cymraeg 18.2%<br>Yn gallu ysgrifennu Cymraeg 16.7%<br>Yn gallu deall Cymraeg ar lafar 23.5%<br><br>Fodd bynnag, roedd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 yn nodi bod 19.3% o ymatebwyr yn RhCT wedi dweud eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg. |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Plant a Phobl Ifainc:<br><br>Bydd y Strategaeth yn cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifainc fanteisio ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, o oedran cyn-ysgol, hyd at addysg gynradd ac uwchradd, gan sicrhau ein bod ni'n rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd iddyn nhw. Mae’n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sydd hefyd yn sicrhau bod disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cael mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg a chyfleoedd eraill yn y Gymraeg.<br><br>Ar hyn o bryd mae 7,233 o ddisgyblion yn RhCT yn mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â hyn, roedd 505 o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi sefyll arholiad TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) ac roedd 1,708 o ddisgyblion wedi sefyll arholiad TGAU Cymraeg (ail iaith). Felly mae yna nifer sylweddol o blant a phobl ifainc sy'n rhugl yn y Gymraeg, neu sydd bron yn rhugl yn y Gymraeg. Mae'n bwysig, felly, bod modd iddyn nhw ddefnyddio'r sgiliau yma y tu hwnt i'r ysgolion. | Roedd Asesiad Llesiant Cwm Taf a gafodd ei gynnal yn 2017 gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf er mwyn llywio Cynllun Llesiant Cwm Taf 2018-2023 yn cydnabod bod y profiadau o deimlo'n unig ac yn ynysig, a llai o ymdeimlad o berthyn yn faterion pwysig iawn i bobl yn ein cymunedau. Mae modd i ddiffyg mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn newis iaith rhywun waethygu teimladau o unigrwydd ac unigedd.<br><br>Mae’r Athro Ellen Bialystok wedi dadlau dros fanteision dwyieithrwydd ac yn y papur ymchwil: Bilingualism: Consequences for Mind and Brain https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/ |

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Bydd y Strategaeth yn sicrhau bod rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ysgol, er enghraifft trwy wella mynediad at ddarpariaeth gwyliau a gweithgareddau allgyrsiol yn Gymraeg. Dywedodd 65.2% o'r bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd mewn perthynas â'r strategaeth arfaethedig eu bod nhw am weld mwy o ddarpariaeth Ieuenctid cyfrwng Cymraeg. Nododd ychydig o dan 60% bwysigrwydd cynyddu darpariaeth y blynyddoedd cynnar sydd ar gael yn Gymraeg.<br><br>Bydd y Cynllun Gweithredu a fydd yn cyflawni'r Strategaeth yn cefnogi partneriaid Cymraeg i ddatblygu a chryfhau Fforwm Ieuenctid y Gymraeg fel bod gan bobl ifainc gyfle i leisio'u barn ynghylch nodi anghenion a dyheadau mewn perthynas â'r cyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol.<br><br>Mae cam gweithredu arall sy'n cefnogi defnydd cynyddol o'r Gymraeg ymhlith pobl ifainc yn cynnwys cydweithio â phartneriaid i ddatblygu a hyrwyddo ystod ehangach o lwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg i fyd gwaith, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd addysg uwch/bellach ar gyfer pobl 14-19 oed. | <u>articles/PMC3322418/</u> mae hi'n trafod y cysylltiad rhwng dwyieithrwydd a lles gwybyddol, gan nodi bod dwyieithrwydd yn cael effaith dawel ar ein bywydau fel oedolion ond yn chwarae rôl bwysicach wrth i ni fynd yn hŷn, gan ein hamddiffyn rhag dirywiad gwybyddol, cysyniad y cyfeirir ato fel "sgiliau gwybyddol wrth gefn".<br><br>Trwy weithredu'r Strategaeth hon, bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer pobl hŷn er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw barhau i ddefnyddio'r sgiliau yma.<br>Mae'r data o Arolwg Cenedlaethol 2019/20 Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn. Yn ôl y data, dim ond rhwng 53% a 55% o bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg oedd wedi nodi'u bod nhw'n defnyddio'r iaith bob dydd. Mae hyn yn cefnogi'r angen am gyfleoedd ychwanegol yn ein |

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Mae astudiaethau wedi dangos bod plant dwyieithog yn gwneud yn well na phlant uniaith mewn sawl maes. Mae'n cynyddu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill ac yn golygu ei bod hi'n haws i ddysgu trydedd iaith. (10 Benefits of Being Bilingual - www.babbel.com/en/magazine/the- many- benefits-of-being-bilingual).<br><br>Mae ymchwil a arweiniwyd gan yr Athro Andrew Henley o Brifysgol Aberystwyth yn dangos bod modd i weithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg ennill cyflog sydd rhwng 8% a 10% yn fwy na'u cydweithwyr uniaith Saesneg.<br>(Earnings and Linguistic Proficiency in a Bilingual Economy - Papur gan yr Athro Andrew Henley: http://fmwww.bc.edu/repec/res2003/Henley.pdf)<br><br>Mae'r seicoieithydd, yr Athro Ellen Bialystok o Brifysgol Efrog, Toronto, wedi nodi ei bod hi'n amhosib dweud a yw dwyieithrwydd yn gwella canlyniadau arholiadau plentyn gan fod sawl ffactor gwahanol yn effeithio ar hyn. Fodd bynnag, meddai'r Athro Bialystok: 'no study has shown it (bilingualism) harms performance- considering the very many social and cultural benefits to knowing another | cymunedau er mwyn iddyn nhw ddefnyddio'r iaith.<br><br>Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 Llywodraeth Cymru yn nodi bod pa mor aml y mae unigolion yn defnyddio'r iaith yn amrywio yn ôl oedran. Roedd mwy na dwy ran o dair o blant 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd, dyma'r grŵp oedran â'r cyfraddau uchaf – mae'n debygol iawn bod hyn adlewyrchu'r ffaith eu bod nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol.<br><br>Roedd y cyfraddau isaf ar gyfer defnyddio'r Gymraeg bob dydd ymhlith oedolion ifainc – roedd 45% o bobl ifanc 16-29 oed sy'n siarad Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu cymunedau a diffyg gweithgareddau cymdeithasol |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | language, bilingualism should be encouraged.' (BBC Future - The Amazing Benefits of Being Bilingual). | wedi'u nodi fel rhesymau posibl, ac mae'r Strategaeth yn bwriadu mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r iaith.<br><br>Mae manteision ac effaith gadarnhaol dwyieithrwydd a dysgu/defnyddio'r Gymraeg ar gyfer pob grŵp oedran wedi'u hamlygu mewn papur gan Colin Baker, Rapporteur Group: 'The advantages of bilingualism in Welsh and English', mae'r papur yn cynnwys ymchwil academaidd rhyngwladol. |
| **Anabledd**<br>*(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | Cadarnhaol | Bydd y strategaeth yn:<br><br>- sicrhau y bydd modd i bobl o bob oed sydd ag ystod o anableddau gyrchu'r wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnyn nhw yn Gymraeg yn eu fformat dewisol, gan gynnwys defnyddio isdeitlau Cymraeg ar fideos ar gyfer y cyhoedd (gan ddibynnu ar gapasiti a thechnoleg) yn ogystal â defnyddio'r dechnoleg sain berthnasol (e.e. dolenni clyw) ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw. Bydd | Mae pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol ym maes gofal iechyd wedi'i sefydlu ers blynyddoedd lawer - er enghraifft, mae hyn wedi'i nodi mor gynnar â 1993 yn rhan o Adroddiad gan y Comisiwn Archwilio. Pwysleisiodd adroddiad a gyhoeddwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ym 1998 |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | hyn o bosibl yn gwella'r gofal y maen nhw'n ei dderbyn a'u deilliannau iechyd;<br>- cefnogi'r fframwaith 'Mwy na Geiriau' gan sicrhau bod gan staff y Cyngor a darparwyr a gomisiynir mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg fel bod modd iddyn nhw gyfathrebu yn Gymraeg gyda'r rhai yn eu gofal;<br><br>- sicrhau bod mwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu gan wasanaethau'r Cyngor a'i bartneriaid, gan leihau'r ymdeimlad o unigrwydd ac arwahanrwydd, gwella'u llesiant a chynyddu'r ymdeimlad o berthyn yn eu cymunedau;<br><br>Mae hybu dwyieithrwydd a chreu amgylchedd lle mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles yn y tymor hwy, mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sydd eisoes â chyflyrau iechyd.<br><br>Yn ogystal â hynny, mae dwyieithrwydd gydol oes yn ein hamddiffyn rhag dechreuad clefyd Alzheimer. (http://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC3033609/)<br><br>Rhyngblethedd - Anabledd ac Oedran: | bwysigrwydd cyfathrebu effeithiol o ran galluogi cleifion i wneud penderfyniadau gwybodus.<br><br>Yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, mae modd i ddiffyg gwasanaethau Cymraeg gael ei ystyried fel methiant o ran bodloni anghenion sylfaenol. Mae rhai grwpiau wedi'u nodi fel grwpiau sydd ag angen hyd yn oed yn fwy sylfaenol am ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg, dyma'r grwpiau hynny:<br>- plant a phobl ifainc<br>- pobl hŷn<br>- pobl ag anawsterau dysgu<br>- defnyddwyr gwasanaethau Iechyd Meddwl.<br>- gwasanaethau Dementia<br>- gwasanaethau strôc<br>- gwasanaethau iaith a lleferydd<br><br>Mae rhai o'r gwasanaethau uchod yn cael eu darparu gan y Cyngor |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn a phobl anabl. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi preswyl nag eraill. Mae'n hollbwysig felly bod y cartrefi hyn yn cydnabod pwysigrwydd iaith fel rhan o'r gofal sy'n cael ei ddarparu. Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu a fydd yn cyd-fynd â hi yn cefnogi gwasanaethau'r Cyngor sy'n darparu gofal cymdeithasol i sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio'n llawn. | neu'r darparwyr y mae'r Cyngor yn eu comisiynu ac mae'r Strategaeth yn amlinellu sut y byddwn ni'n parhau i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn y meysydd yma.<br>Mae Erthygl 13 o'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol yn sefydlu egwyddor ac yn nodi 'social care facilities such as hospitals, retirement homes and hostels offer the possibility of receiving and treating in their own language persons using a regional or minority language which are in need of care on grounds of ill-health, old age or for other reasons.'<br><br>Mae ymchwilwyr wedi canfod bod nifer fawr o fanteision yn gysylltiedig â siarad mwy nag un iaith gan gynnwys adferiad cyflymach yn dilyn strôc ac oedi |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | | dechreuad dementia. (Gaia Vince 12/8/2016 - The amazing benefits of being bilingual). Mae'r ymchwil yma wedi derbyn cefnogaeth fawr - www.ed.ac.uk/news/2015/stroke-191115. |
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd)* | Cadarnhaol | Yn ogystal â darparu'r cyfleoedd sy'n cael eu creu gan y Strategaeth hon ac sy'n berthnasol i bobl eraill - rhagor o gyfleoedd i gael mynediad at gyfleoedd dysgu a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ac ati - mae hyn yn cael ei ystyried yn fantais ychwanegol ar gyfer y bobl sydd â'r nodwedd hon.<br><br>Gall ailbennu rhywedd gynnwys amrywiaeth o ymyriadau meddygol ac fel y nodir uchod mae Llywodraeth Cymru ac ystod eang o arbenigwyr meddygol ac eraill yn cydnabod y cysylltiad uniongyrchol rhwng ansawdd gofal a darparu gwasanaethau yn newis iaith y claf.<br><br>Er nad yw’r Strategaeth hon yn uniongyrchol berthnasol i’r Gwasanaeth Iechyd, bydd yn effeithio ar y cymorth a’r cyngor y mae gwasanaethau’r Cyngor yn eu darparu i'r bobl â’r nodwedd warchodedig hon, gan gynnwys cyfeirio pobl at ffynonellau gwybodaeth perthnasol a'r cyngor sydd ar gael yn y Gymraeg lle bo’n briodol. | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019-2022<br><br>Dyletswydd Sector Cyhoeddus<br><br>Fframwaith 'Mwy Na Geiriau' |

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
| --- | --- | --- | --- |
| **Priodas a Phartneriaethau Sifil** *(pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Cadarnhaol | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar bobl yn y categori yma drwy greu rhagor o gyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, dysgu Cymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny a chael mynediad at wasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg. Yn fwy penodol, bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar bobl yn y categori yma gan y byddan nhw'n parhau i allu priodi neu gael seremoni sifil yn swyddfa'r Cofrestrydd trwy gyfrwng y Gymraeg os dyna yw eu dewis. | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019-2022 |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)* | Cadarnhaol | Bydd pobl â'r nodweddion gwarchodedig hyn yn elwa o'r Strategaeth hon drwy gael:<br><br>- mynediad at gyngor a chymorth gan wasanaethau perthnasol y Cyngor, gan gynnwys darpariaeth Cymraeg os yw hynny'n well ganddyn nhw;<br>- mynediad at gyrsiau Cymraeg yn ystod oriau gwaith os ydyn nhw'n cael eu cyflogi gan y Cyngor, neu yn y gymuned gan un o'n partneriaid os nad ydyn nhw'n cael eu cyflogi gan y Cyngor;<br>- mynediad at wybodaeth a chyngor mewn perthynas â darpariaeth y blynyddoedd cynnar ac opsiynau o ran ysgolion yn Gymraeg yn ogystal â mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant os oes angen; | Mae mynediad at wybodaeth a chyngor yn newis iaith yr unigolyn, fel y nodwyd yn flaenorol, yn hanfodol bwysig ar gyfer iechyd a lles, yn enwedig yn ystod cyfnod beichiogrwydd a mamolaeth.<br>Fframwaith 'Mwy na Geiriau'<br><br>Rhieni di-Gymraeg sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhannu'r effaith gadarnhaol y mae hyn wedi'i chael https://meithrin.cymru/news/mudiad-meithrin-yn-rhyddhau-fideo-i- |

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | - mynediad at weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys sesiynau rhieni a babanod yn Gymraeg ac ati.<br>Bydd Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn ystyried yr argymhellion a amlinellwyd yng ngwaith ymchwil: Astudiaeth ansoddol o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio penderfyniadau rhieni o ran gofal plant ac addysg gynnar. Mae'n archwilio sut nad yw mamau'n cyrchu'r ddarpariaeth y mae ganddyn nhw'r hawl i'w derbyn. Byddwn ni'n ystyried canfyddiadau ac argymhellion y gwaith ymchwil er mwyn llywio ein gwaith o dargedu rhieni a rhannu gwybodaeth â nhw wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Hybu'r Gymraeg.<br><br>Mae modd gweld Adroddiad Ymchwil Hughes, Buddug a Jones, Kathryn (2021) yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-01/astudiaeth-ansoddol-o-gredoau-ymddygiadau-a-rhwystrau-syn-effeithio-penderfyniadau-rhieni-o-ran-gofal-plant-ac-addysg-gynnar.pdf | ddenu-rhieni-di-gymraeg-i-addysg-gymraeg/<br><br>https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-01/astudiaeth-ansoddol-o-gredoau-ymddygiadau-a-rhwystrau-syn-effeithio-penderfyniadau-rhieni-o-ran-gofal-plant-ac-addysg-gynnar.pdf |
| **Hil** | Cadarnhaol | Gall pobl o bob hil ddysgu Cymraeg ym mhob lleoliad addysgol – o leoliadau cyn-ysgol, lleoliadau oedran ysgol | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019/22 |

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| *(grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | | statudol, lleoliadau ôl-16 a lleoliadau addysg i oedolion yn lleol drwy’r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion a/neu drwy ddarpariaeth ar-lein.<br>Mae erthygl ar wefan newyddion BBC Cymru yn amlygu parodrwydd a llwyddiant ffoaduriaid sy'n dysgu Cymraeg fel iaith ychwanegol i'r rhai y maen nhw eisoes yn gyfarwydd â nhw. (www.bbc.co.uk/news/uk-Wales/59795982)<br>Roedd nifer y bobl sy'n dysgu'r Gymraeg wedi cynyddu i 1.3miliwn yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mae hyn o ganlyniad i hygyrchedd y deunydd yma. (www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52890175)<br>Gwelodd Duolingo gynnydd o 44% yn nifer y bobl oedd yn dysgu Cymraeg ar ei ap ac roedd ei adroddiad yn 2020 yn nodi mai’r Gymraeg oedd yr iaith sy’n tyfu cyflymaf yn y DU.<br><br>Mae dysgu ieithoedd ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion o ran eu gallu i gyfathrebu ag eraill. Mae dysgu iaith hefyd yn golygu bod modd i'r unigolyn edrych ar y byd mewn ffordd wahanol ac yn galluogi'r unigolyn i ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a gwerthfawrogiad o'r manteision sy'n gysylltiedig â byw mewn cymunedau amrywiol. | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032<br><br>Dyletswydd Sector Cyhoeddus |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu dysgu am amrywiaeth mewn cymunedau, yn enwedig hanes pobl Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, at y Cwricwlwm i Gymru. Mae disgwyl i'r Cwricwlwm gael ei gyflwyno o fis Medi 2022, yn dilyn blynyddoedd o waith datblygu gan athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill o fyd addysg.<br>Felly, bydd y Strategaeth arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar bobl o hiliau eraill mewn sawl ffordd:<br><br>- bydd yn galluogi'r rhai sy'n dysgu Cymraeg i ymarfer eu sgiliau a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu cymunedau lleol, ac felly'n lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a gwella cydlyniant cymunedol;<br>- bydd yn sicrhau bod pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn cael eu targedu yn rhan o'r Cynllun Cyfathrebu a Marchnata a fydd yn cael ei ddatblygu i hyrwyddo manteision bod yn ddwyieithog;<br>- bydd yn helpu pobl i ddatblygu dealltwriaeth ehangach o wahanol ddiwylliannau a'r cyfleoedd y maen nhw'n eu cynnig i ehangu gorwelion. | |
| **Crefydd neu Gred**<br>*(pobl sydd â gwahanol grefyddau* | Cadarnhaol | Bydd pobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon yn elwa o'r strategaeth os ydyn nhw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u bywydau bob dydd neu'n dymuno cymryd | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019/22 |

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| *a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | | rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol neu addysgol yn y Gymraeg.<br><br>Bydd gofyn i achlysuron dinesig beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, er enghraifft, trwy gynnwys emynau Cymraeg a Saesneg yn ystod gwasanaethau dinesig. | Dyletswydd Sector Cyhoeddus |
| **Rhyw**<br>*(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Cadarnhaol | Mae pobl o'r ddau ryw yn siarad Cymraeg ac mae'n bosibl y byddan nhw am gael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn Gymraeg a byw, gweithio a chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae'r Strategaeth yn elfen hanfodol o'r ffordd y bydd y Cyngor yn sicrhau bod modd i bawb, gan gynnwys pobl o'r ddau ryw, wneud hyn yn Rhondda Cynon Taf. | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019/22<br><br>Dyletswydd Sector Cyhoeddus |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol**<br>*(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)* | Cadarnhaol | Mae pobl o bob cyfeiriadedd rhywiol yn siarad Cymraeg ac mae'n bosibl y byddan nhw am ddefnyddio’r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol yn eu cymunedau.<br>Mae'n bosibl y bydd angen i bobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon gael mynediad at wybodaeth a chyngor | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019/22<br><br>Dyletswydd Sector Cyhoeddus |

| **Nodweddion Gwarchodedig** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | ar 'ddod allan' neu gael cymorth cwnsela (ymhlith pethau eraill) yn eu dewis iaith.<br><br>Bydd unrhyw gymorth corfforaethol sy'n cael ei gynnig i achlysuron cenedlaethol, megis Pride, yn rhoi llwyfan i'r Gymraeg gan annog grwpiau cymunedol LHDT+ i ddefnyddio'r Gymraeg hefyd. Mae hyn yn normaleiddio'r defnydd o'r iaith, ond mae hefyd yn bwysig o ran lles yr unigolion.<br><br>Bydd cael Strategaeth Bum Mlynedd sy'n amlinellu sut y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn hwyluso hyn yn cynnig manteision cadarnhaol ar gyfer y grŵp hwn. | Hysbysiad Cydymffurfio CBSRhCT - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog** *(unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | Cadarnhaol | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar Aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog sydd eisiau defnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth fyw, gweithio a chwarae neu sy’n dymuno dysgu Cymraeg.<br>Mae enghreifftiau o’r effeithiau cadarnhaol hyn yn cynnwys:<br>- cyfleoedd i gael mynediad at wersi Cymraeg yn y gymuned (neu, os ydyn nhw'n gweithio i’r Cyngor, yn y gweithle yn ystod oriau gwaith)<br>- mynediad at ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a darpariaeth ysgol cyfrwng Cymraeg<br>- mynediad at weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden yn y Gymraeg<br>- mynediad at gyngor, cymorth a chwnsela, os yw'n briodol, yn eu dewis iaith<br><br>Mae'r strategaeth yn cefnogi'r fframwaith 'Mwy na Geiriau' trwy ganolbwyntio ar ymgysylltu ag unigolion yn eu dewis iaith er mwyn gwella deilliannau iechyd. I gyn-filwyr, | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019/22<br><br>Dyletswydd Sector Cyhoeddus<br><br>Fframwaith Mwy na Geiriau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gallai hyn fod yn elfen bwysig sy'n effeithio ar eu lles yn y tymor hwy. | |
| **Cynhalwyr**<br>*(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Cadarnhaol | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gynhalwyr sy'n siarad Cymraeg ac sy'n dymuno cyrchu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn y Gymraeg gan y bydd yn darparu hyfforddiant sgiliau Cymraeg i weithlu'r Cyngor i sicrhau bod gan y Cyngor niferoedd digonol o staff i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.<br>Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi dyletswyddau hollgyffredinol i helpu pobl sydd angen gofal a chymorth a chynhalwyr sydd angen cymorth. Mae rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau unigolyn yn hollbwysig wrth gefnogi pobl i gyflawni llesiant. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o fodloni eu hanghenion gofal. | Cynllun Cydraddoldeb Strategol RhCT 2019/22<br>Dyletswydd Sector Cyhoeddus<br>Fframwaith Mwy na Geiriau<br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn (adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad? Ydw ☒ Nac ydw ☐

Enw: Wendy Edwards

Swydd: Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymuned

Dyddiad: 21/04/22

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.
NODWCH - mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion.
Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 *Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o'r Canllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd Llywodraeth Cymru.*

## ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Mae hyn yn y pen draw yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel/Tlodi o ran Incwm**<br>*(does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati.)* | Cadarnhaol | Plant a Phobl Ifainc:<br><br>Mae 22% o blant 0-19 oed yn rhan o deuluoedd sydd ag incwm cymharol isel yn Rhondda Cynon Taf, o gymharu ag 20% ledled Cymru (Adroddiad Mewnwelediad Cymunedol RhCT 2022).<br>Mae 8,944 o aelwydydd yn RhCT yn aelwydydd rhiant sengl gyda phlant dibynnol.<br>Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'i Chynllun Gweithredu cysylltiedig yn sicrhau bod plant o gartrefi incwm isel sy'n siarad Cymraeg a/neu sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn eu cymunedau. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod unrhyw gymorth neu ddeunyddiau sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg - bydd hyn o fudd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o bob oed.<br>Mae disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn | Data NOMIS<br>Proffil y Farchnad Lafur - Nomis - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk)<br><br>Data Mewnwelediad Cymunedol RhCT (Chwefror 2022)<br><br>Cymdeithas Joseph Rowntree: Adroddiad Tlodi'r DU 2022 |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | aml yn teithio y tu hwnt i'r dalgylchoedd arferol i fanteisio ar ddarpariaeth. Bydd sicrhau bod modd iddyn nhw ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol heb dalu costau ychwanegol yn helpu pobl ag incwm isel, yn enwedig o ran costau teithio gan fod lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn tueddu bod ar wasgar, yn wahanol i leoliadau cyfrwng Saesneg.<br><br>Bydd darparu mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg hefyd yn sicrhau bod gan blant o gartrefi incwm isel sgil allweddol ychwanegol (y gallu i siarad Cymraeg a chynnig 2 iaith i gyflogwyr) wrth chwilio am waith/sicrhau cyflogaeth.<br><br>Bydd y Cynllun Gweithredu a fydd yn cyd-fynd â'r strategaeth yn ystyried sut y gallai tlodi digidol effeithio ar nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r Gymraeg ac yn rhoi camau ar waith i liniaru hyn er mwyn sicrhau bod modd i holl drigolion RhCT fanteisio'n | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032<br><br>Nododd Adroddiad Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg Llywodraeth Cymru fod 'ychydig dros draean y cyflogwyr o'r wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil fod cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn bwysig iawn (18 y cant) neu'n weddol bwysig (17 y cant). (Roedd y ffigur yn uwch ymhlith cyflogwyr yn y sectorau Gofal Plant, Bwyd-amaeth a Gofal Cymdeithasol)'. Mae llawer o swyddi gwag yn RhCT wedi bod ym maes gofal cymdeithasol (a meysydd eraill) dros gyfnod o flynyddoedd. |

| <u>**Anfantais economaidd-gymdeithasol**</u> | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | llawn ar gyfleoedd i fwynhau, dysgu a siarad Cymraeg.<br><br>Pensiynwyr:<br><br>Mae Adroddiad Tlodi'r DU a luniwyd gan Gymdeithas Joseph Rowntree 2022 yn nodi bod cynnydd o 5% wedi bod yn nifer y pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi gyda bron i un o bob pum pensiynwr yn byw mewn tlodi erbyn 2019/20. Mae 21,378 o aelwydydd â phensiynwyr yn RhCT. Er nad oes gwybodaeth bendant ar gael am faint o bensiynwyr yn RhCT sy'n byw mewn tlodi, yn seiliedig ar ganran y DU, mae'n bosibl bod cynifer â 5,344 yn cael eu hystyried i fod yn rhan o'r categori yma (mae'n bosibl bod y ffigur wirioneddol yn uwch gan fod lefel amddifadedd RhCT yn uwch na chyfartaledd y DU).<br><br>Bydd sicrhau mynediad at wasanaethau a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg yn sicrhau nad yw'r iaith yn rhwystr wrth | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | gael mynediad at y cymorth sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion. | |
| **Cyfoeth Isel a / neu Dim Cynilion** *(digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Cadarnhaol | Plant a Phobl Ifainc:<br><br>Mae 22% o blant 0-19 oed yn rhan o deuluoedd sydd ag incwm cymharol isel yn Rhondda Cynon Taf, o gymharu ag 20% ledled Cymru (Adroddiad Mewnwelediad Cymunedol RhCT 2022).<br>Mae 8,944 o aelwydydd yn RhCT yn aelwydydd rhiant sengl.<br>Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'i Chynllun Gweithredu cysylltiedig yn sicrhau bod plant o gartrefi incwm isel sy'n siarad Cymraeg a/neu sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn eu cymunedau. Bydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod unrhyw gymorth neu ddeunyddiau sydd ar gael yn Saesneg hefyd ar gael yn Gymraeg - bydd hyn o fudd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o bob oed. | Data NOMIS<br>Proffil y Farchnad Lafur - Nomis - Ystadegau Swyddogol y Farchnad Lafur (nomisweb.co.uk)<br>Data Mewnwelediad Cymunedol RhCT (Chwefror 2022)<br><br>Cymdeithas Joseph Rowntree: Adroddiad Tlodi'r DU 2022 |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Mae disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn aml yn teithio y tu hwnt i'r dalgylchoedd arferol i fanteisio ar y ddarpariaeth. Bydd sicrhau bod modd iddyn nhw ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol heb dalu costau ychwanegol yn helpu pobl ag incwm isel, yn enwedig o ran costau teithio gan fod lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn tueddu bod ar wasgar, yn wahanol i leoliadau cyfrwng Saesneg.<br><br>Yn yr un modd â phlant mewn tlodi, bydd gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg yn fantais iddyn nhw yn y gweithle yn enwedig o fewn sectorau allweddol megis gofal plant, gofal cymdeithasol a gwasanaethau rheng flaen mewn sefydliadau sector cyhoeddus.<br><br>Bydd y Cynllun Gweithredu a fydd yn cyd-fynd â'r strategaeth yn ystyried sut y gallai tlodi digidol effeithio ar nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r Gymraeg ac yn rhoi camau ar waith i | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | liniaru hyn er mwyn sicrhau bod modd i holl drigolion RhCT fanteisio’n llawn ar gyfleoedd i fwynhau, dysgu a siarad Cymraeg.<br><br>Pensiynwyr:<br><br>Mae Adroddiad Tlodi'r DU 2022 a luniwyd gan Gymdeithas Joseph Rowntree yn nodi bod cynnydd o 5% wedi bod yn nifer y pensiynwyr sy'n byw mewn tlodi gyda bron i un o bob pum pensiynwr yn byw mewn tlodi erbyn 2019/20. Mae 21,378 o aelwydydd â phensiynwyr yn RhCT. Er nad oes gwybodaeth bendant ar gael am faint o bensiynwyr yn RhCT sy'n byw mewn tlodi, yn seiliedig ar ganran y DU, mae'n bosibl bod cynifer â 5,344 yn cael eu hystyried i fod yn rhan o'r categori yma (mae'n bosibl bod y ffigur wirioneddol yn uwch gan fod lefel amddifadedd RhCT yn uwch na chyfartaledd y DU). | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Bydd sicrhau mynediad at wasanaethau a gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg yn sicrhau nad yw'r iaith yn rhwystr wrth gael mynediad at y cymorth sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion. | |
| **Amddifadedd Materol**<br>*(methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | Cadarnhaol | Roedd 7% o bensiynwyr a oedd yn byw yng Nghymru rhwng 2017/18 a 2019/20 mewn amddifadedd materol.<br>Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y grŵp difreintiedig yma trwy sicrhau bod modd iddyn nhw gyrchu gwybodaeth a chyngor ar ystod o faterion sy'n effeithio arnyn nhw, gan gynnwys gofyn am grantiau dewisol lle bo'n berthnasol, yn eu dewis iaith.<br>O dan y Strategaeth hon mae modd i ystod o wasanaethau'r Cyngor a'u partneriaid ddarparu cyfleoedd cymdeithasol, hamdden a diwylliannol yn y Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mewn gwirionedd, os yw gweithgareddau yn cael eu darparu am ddim yn Saesneg, yna bydd yr un peth yn wir am weithgareddau a ddarperir yn Gymraeg. | Nododd Llywodraeth Cymru fod modd i beidio â chael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg gyfrannu at amddifadedd materol ac anfantais economaidd-gymdeithasol. (Amddifadedd materol ac incwm isel: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 \| LLYW.CYMRU)<br>Mesurwyd amddifadedd materol yn yr uchod drwy ofyn i ymatebwyr a oedd ganddyn nhw fynediad i 21 o nwyddau a gwasanaethau (15 os ydyn nhw'n hŷn na 65). |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| | | Roedd 14% o’r plant a oedd yn byw yng Nghymru yn 2017/18 a 2019/20 yn wynebu amddifadedd materol ac yn byw mewn aelwydydd incwm isel. Mae yna fanteision sylweddol ar gyfer y plant yma a'u teuluoedd o ran mynediad at addysg, darpariaeth ieuenctid a chwaraeon, deunyddiau darllen ac ati yn Gymraeg. Bydd y rhain yn cael eu cefnogi drwy'r Cynllun Gweithredu a fydd yn cael ei ddatblygu i weithredu'r strategaeth hon.<br><br>Bydd mabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau cyfrwng Cymraeg i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau yn sicrhau ein bod ni'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i normaleiddio’r iaith fel bod modd ei defnyddio ym mhob rhan o fywyd a gwaith yn RhCT a sicrhau bod modd i genedlaethau nawr ac yn y dyfodol elwa o hynny, beth bynnag fo'u hamgylchiadau economaidd neu gymdeithasol. | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd o ran Ardal**<br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | Cadarnhaol | Mae CBSRhCT a'i ardaloedd cyfagos yng nghymoedd De Cymru yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.<br><br>Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yn amlygu 8 categori sy'n cael eu hasesu wrth ystyried lefelau amddifadedd. Mae'r canlynol yn nodi sut y bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cyfrannu at rai o'r meysydd allweddol yma:<br>Cyflogaeth – bydd creu llwybrau er mwyn i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u cymwysterau yn gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Erbyn hyn, mae angen rhywfaint o sgiliau Cymraeg ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi yn y sector cyhoeddus ac mae sgiliau Cymraeg yn cael eu nodi fel mantais gan fusnesau eraill ledled De-ddwyrain Cymru. Bydd sicrhau mynediad at gyrsiau Cymraeg yn y gymuned yn cynyddu cyflogadwyedd oedolion sy'n chwilio am waith neu sydd eisiau sicrhau dyrchafiad yn eu gweithleoedd. | Gweithgor Mynegai Amddifadedd Lluosog<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Deddf Cydraddoldeb 2010<br><br>Cynllun Corfforaethol CBSRhCT 2020 i 2024:<br><br>Nododd Adroddiad Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg Llywodraeth Cymru fod 'ychydig dros draean y cyflogwyr o'r wyth sector a drafodwyd yn yr ymchwil fod cael staff a chanddynt sgiliau Cymraeg yn eu sefydliad yn bwysig iawn (18 y cant) neu'n weddol bwysig (17 y cant). (Roedd y ffigur yn uwch ymhlith cyflogwyr yn y sectorau Gofal Plant, Bwyd-amaeth a Gofal Cymdeithasol). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Iechyd - Mae sicrhau mynediad at gyngor a gwybodaeth yn newis iaith yr unigolyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflawni deilliannau iechyd cadarnhaol. Bydd darparu cyfleoedd i bobl ymuno â grwpiau lleol ac ymgysylltu â gweithgareddau yn Gymraeg yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd ymhlith trigolion hŷn sy'n siarad Cymraeg. Nodwyd bod dwyieithrwydd yn cynnig manteision i'ch iechyd (fel sydd wedi'i nodi yn adran 'Oedran' uchod), felly mae'n bosibl y bydd galluogi cyfleoedd er mwyn i bobl ddatblygu a chynnal y sgiliau yma yn gwella deilliannau iechyd hirdymor yn ein cymunedau.<br><br>Incwm - Mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn derbyn incwm is nag eraill. Mae gwella sgiliau a chymwysterau yn ffordd o gynyddu lefelau incwm. Bydd y Strategaeth hon yn gwella mynediad at gyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a bydd hefyd yn sicrhau bod modd i drigolion gael mynediad at gyrsiau Cymraeg a fydd yn arwain at gyfleoedd gwell o ran cyflogadwyedd ac mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at gyflogau gwell hefyd. | Roedd dros chwarter y sefydliadau (28 y cant) o'r farn y byddai'n fuddiol iddynt gael mwy o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg, neu fwy o staff a chanddynt lefel uwch o sgiliau Cymraeg.<br><br>Roedd saith y cant o'r sefydliadau'n disgwyl y byddai eu hangen am sgiliau Cymraeg yn cynyddu yn y 2-3 blynedd nesaf. Roedd hyn yn uwch ymhlith cyflogwyr Gofal Plant, Gofal Cymdeithasol, Creadigol a Lletygarwch (28%, 15%, 12% a 10% yn y drefn honno).'<br><br>Mae'n rhesymol nodi y byddai mwy o alw am sgiliau Cymraeg ymhlith busnesau, pe byddai'r arolwg yn cael ei gynnal yn 2022, o ganlyniad i effaith deddfwriaeth ddiweddar mewn perthynas â'r iaith.<br><br>Amlygir y cysylltiad rhwng y Gymraeg a’r economi yn nogfen ‘Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi’ (Llywodraeth Cymru, 2017) sy’n nodi: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Addysg – bydd canolbwyntio ar sicrhau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o safon uchel, gyda llwybrau at addysg bellach ac addysg uwch, yn gwella cyfleoedd addysgol ac yn helpu'r unigolion a'r ardaloedd lle maen nhw'n byw.<br>Mynediad at wasanaethau – mae sicrhau bodd modd cael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg yn thema allweddol yn y Strategaeth. Dylai cludiant i/o leoliadau darpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn ystyriaethau allweddol yn rhan o unrhyw gamau gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau bod modd i siaradwyr Cymraeg fanteisio ar yr un gwasanaethau yn eu dewis iaith â'r siaradwyr Saesneg. | 'Mae dyfodol ein cymunedau Cymraeg eu hiaith a'n heconomi ranbarthol yn mynd law yn llaw. Bydd economïau lleol ffyniannus yn ein helpu i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd swyddi o ansawdd da a rhanbarthau sy'n fannau deniadol i weithio, i fyw ac i fuddsoddi ynddynt, yn rhoi rheswm i bobl aros neu ddychwelyd i weithio ac i fyw mewn cymunedau lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Os yw'r Gymraeg yn ffynnu, mae hynny'n helpu busnesau i dyfu ac yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i ddatblygu'r economi yn y rhanbarthau.' |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol**<br>*(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Cadarnhaol | Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac i roi sylw dyledus i'r dymunoldeb i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae 8,944 o aelwydydd â phlant dibynnol yn RhCT yn aelwydydd un rhiant - mae'r aelwydydd yma'n fwy tebygol o fod mewn tlodi. | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru<br><br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br><br>Deddf Cydraddoldeb 2010<br><br>Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 2020 i 2024. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn sicrhau bod y plant hynny sydd â rhieni â llai o incwm gwario yn cael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod cyn-ysgol i'r ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac addysg bellach. Mae Adroddiad Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector Llywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y bydd gan bobl ddwyieithog fantais wrth ddod o hyd i waith. Mae hyn yn arbennig o wir ers gosod Safonau Statudol y Gymraeg ar sefydliadau sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r sefydliadau yma sicrhau bod modd iddyn nhw ddarparu eu gwasanaethau yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.<br><br>Bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg hefyd yn sicrhau bod modd cael mynediad at weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu darparu yn Gymraeg fel bod modd i blant ac oedolion ddefnyddio eu sgiliau iaith yn eu cymunedau.<br>Yn ogystal â hyn, bydd cefnogi mynediad at hyfforddeiaethau a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg yn sicrhau llwybrau i gyflogaeth a fydd | Adroddiad Mewnwelediad Cymunedol RhCT (Chwefror 2022)<br><br>Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn cynyddu faint o arian y mae modd iddyn nhw ei ennill.<br>Hefyd, bydd gwreiddio modiwlau Cymraeg yn rhan o gyrsiau cyflogadwyedd sydd wedi'u targedu at bobl sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar yn gwella'u cyfleoedd i ddod o hyd i gyflogaeth, yn enwedig swyddi o ansawdd da mewn ystod o sectorau sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg. | |
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol**<br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais)* | Cadarnhaol | Bydd y Strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg yn ogystal â dysgwyr Cymraeg sydd â nodweddion gwarchodedig gan sicrhau:<br>- bod modd iddyn nhw ymgysylltu â gwasanaethau'r Cyngor yn eu dewis iaith;<br>- mynediad at addysg a chyfleoedd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, o addysg cyn ysgol i addysg bellach ac addysg uwch, ac addysg i oedolion yn y gymuned;<br>- mynediad at gyngor a gwybodaeth yn Gymraeg, gan gynnwys ar-lein;<br>- bod ganddyn nhw fwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol drwy | Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr drwy'r ddarpariaeth addysg a sgiliau ôl-16 yn fodd o gefnogi economi sy'n ffynnu yng Nghymru<br><br>Mae'r Gymraeg hefyd yn cael ei hystyried fel modd o sicrhau bod cymunedau Cymraeg eu hiaith yn elwa o'r ffyniant economaidd tra bod seilwaith yr iaith (addysg, diwydiant cyfieithu, technoleg cyfieithu ac ati) yn rhoi hwb i'r economi. Yn ogystal â hyn, mae rhai brandiau yn ystyried yr iaith fel elfen werthu unigryw. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfrwng y Gymraeg ac i ddefnyddio'r iaith yn fwy aml yn eu cymunedau. | (Y Gymraeg a'r Economi: Adolygiad o'r Dystiolaeth a'r Dulliau 2020) |

**ADRAN 4 - ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN**

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.



4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei gael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau y byddai modd eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi? **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

Mae cynllun gweithredu sy'n tanategu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gadarnhau ar ôl i ddata newydd Cyfrifiad 2021 gael ei gyhoeddi.

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol neu andwyol eu nodi yn rhan o'r asesiad yma.

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg uchod, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.

Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol neu andwyol eu nodi yn rhan o'r asesiad yma.

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

Ni chafodd unrhyw effeithiau negyddol neu andwyol eu nodi yn rhan o'r asesiad yma.

4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Statudol Cydraddoldeb a Dyletswyddau Statudol Economaidd-Gymdeithasol?

Ydw ☒ Nac ydw ☐

## ADRAN 5 – MONITRO, GWERTHUSO AC ADOLYGU

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022 - 2027 fydd ail strategaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, mae'n barhad o’r strategaeth gyntaf (2016 - 2021), ac yn defnyddio gwaith y Cyngor a’n partneriaid i hybu a hwyluso’r iaith dros y pum mlynedd diwethaf yn sylfaen iddi. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro yn rhan o'r broses hunanwerthuso a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor perthnasol (sef Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg ar hyn o bryd) yn flynyddol . Ar ddiwedd y 5 mlynedd, bydd asesiad statudol yn cael ei gynnal i werthuso effeithiolrwydd y strategaeth a bydd yr asesiad yma'n cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

Ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd, yn 2027.

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

Gwasanaethau Cymraeg: Rheolwr Gwasanaeth a'r Uwch Swyddog Cydymffurfio.

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

Bydd yr asesiad statudol o Strategaeth 2022-2027 yn darparu argymhellion mewn perthynas â meysydd i’w datblygu ymhellach a/neu eu gwella. Bydd modd i Aelodau helpu i ddatblygu unrhyw gynigion ar gyfer y dyfodol yn rhan o'r broses fonitro flynyddol.

## ADRAN 6 - ADOLYGU

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, rhaid i chi anfon yr asesiad yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant – cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk a'r Garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghori@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf ar gyfer rhywfaint o arweiniad cychwynnol ac adborth. Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael ei osod ger bron Swyddogion y Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Arweinwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith i gyfeiriad e-bost - BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i ni ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau Amrywiaeth/Economaidd-gymdeithasol lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol

| **Sylwadau'r Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
|---|---|---|
| Ychwanegwyd yr holl sylwadau/awgrymiadau a dderbyniwyd gan y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth cyn eu cyflwyno i'r panel adolygu | Gorffennaf 2022 | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| Gweler Atodiad 2 o'r prif adroddiad | Medi 2022 | Rhoddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth lunio'r strategaeth newydd. |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |

| | | |
|---|---|---|
| Mae angen cryfhau'r dyfyniadau a'r sylfaen dystiolaeth a chwblhau Adran 4a. | Medi 2022 | Diweddarwyd y dyfyniadau yn unol â'r argymhellion, gan gynnwys yr adran ar gyfer mamau beichiog a'r rhai sydd ar gyfnod mamolaeth ac ychwanegwyd datganiad at Adran 4a. |

**ADRAN 7 - CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG**

Rhowch grynodeb o'r asesiad effaith isod, gan gynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol, ynghyd â throsolwg o'r camau rydych chi wedi'u cymryd ers yr asesiad effaith i gyfrannu'n well at ragor o effeithiau cadarnhaol. Rhaid cynnwys y crynodeb hwn yn yr adran Ystyriaethau Cydraddoldeb sy'n rhan o dempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor/y Cabinet. Nid yw'n ddigonol i ysgrifennu 'Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad X'. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad.

*Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:*

Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael effaith gadarnhaol ar y nodweddion gwarchodedig felly nid oes angen asesiad llawn ar hyn o bryd. Mae cynllun gweithredu sy'n tanategu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gadarnhau ar ôl i ddata newydd Cyfrifiad 2021 gael ei gyhoeddi.

**ADRAN 8 - AWDURDODI**

Swyddog Arweiniol:

Enw: Steffan Gealy

Swydd: Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymraeg

Dyddiad: 26 Medi 2022

Rwy'n argymell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau ☒
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu ☐
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol ☐

Atodiad 3

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw: Nicola Lewis

Swydd: Pennaeth Gwasanaethau Cymuned a'r Gymraeg

Dyddiad: 26 Medi 2022

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Tudalen wag

Diben yr Erfyn ar gyfer Asesu Effaith ar y Gymraeg yw galluogi Cyngor RhCT i ystyried egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Cam Un - Casglu Gwybodaeth**

**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael mwy o wybodaeth am ffynonellau data.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cynnig:** | Strategaeth Hybu'r Gymraeg (2022-2027) |
| **Adran** | Gwasanaethau Cymraeg |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Wendy Edwards / Louise Davies |
| **Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Steffan Gealy/Lisa Sheppard Thomas/Wendy Edwards/Nicola Lewis |
| **E-bost** | steffan.gealy@rhondda-cynon-taf.gov.uk |
| **Ffôn** | 07824541674 (Steffan Gealy) |
| **Disgrifiad Cryno** | Mae Safon y Gymraeg 145 yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i gyhoeddi Strategaeth Hybu'r Gymraeg i sicrhau bod gan drigolion, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac er mwyn i'r Cyngor gefnogi cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. |
| **Dyddiad** | Medi 2022 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (Defnyddwyr Gwasanaethau,** | Defnyddiwr Gwasanaeth, Gweithwyr, Y Gymuned Ehangach, Ymwelwyr, Trigolion, Busnesau, Trydydd Sector. |



RHONDDA CYNON TAF

| | |
|---|---|
| **Gweithwyr, Cymuned Ehangach)** | |
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Gymraeg?** | Ein gweledigaeth yw datblygu Rhondda Cynon Taf yn sir gwbl ddwyieithog; Bwrdeistref Sirol lle mae modd i drigolion fyw, gweithio a chwarae, yn ogystal â chael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ardal lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hybu'n naturiol ac mae'r Gymraeg yn cael ei hamddiffyn er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei defnyddio a'i mwynhau. |
| **Pwy fydd yn elwa / A allai'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg?**<br>**Os felly, rhestrwch nhw yma.** | Bydd y cynnig yma'n effeithio'n uniongyrchol ar lu o grwpiau Cymraeg. Mae rhai o'r prif grwpiau wedi'u nodi isod -<br><br>Mudiad Meithrin<br>Menter Iaith RhCT<br>Aelwyd Cwm Rhondda<br>RhAG<br>Ysgolion Cyfrwng Cymraeg<br>Dysgwyr Cymraeg<br>Defnyddwyr Gwasanaethau<br><br>Yn ogystal â grwpiau sy'n siarad Cymraeg, gan gynnwys dysgwyr, rydyn ni'n rhagweld y bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau a lleoliadau mwy cyffredinol, sydd ddim yn siarad Cymraeg, wrth i'r Gymraeg barhau i gael ei normaleiddio yn ein cymunedau. |
| **Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw** | Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>O'r 225,555 o drigolion sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, nododd Cyfrifiad 2011[1] fod 12.3% (27,779) yn gallu siarad Cymraeg.  Mae modd cymharu hyn â ffigurau Cymru gyfan. O'r 2,955,841 o drigolion sy'n byw yng Nghymru, roedd 19% (562,016) yn gallu siarad Cymraeg.  Mae data cychwynnol o Gyfrifiad 2021 (Gorffennaf 2022) wedi dangos bod 237,700 o drigolion bellach yn byw yn RhCT gyda phoblogaeth o 3,107,500 yng Nghymru. Nid yw'r data sy'n ymwneud â sgiliau Cymraeg wedi cael ei ryddhau eto.<br><br>Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[2] yn casglu gwybodaeth am sgiliau siarad Cymraeg y rheiny sy'n ymateb ac yn cynnwys cwestiwn ar ba mor aml y mae pobl yn siarad Cymraeg. Nododd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2021 fod 20.9% o'r rheiny a ymatebodd ac |



RHONDDA CYNON TAF

sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol wedi dweud eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg. Mae modd cymharu hyn â'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan, sef 29.5%. Mae modd dadansoddi hyn ymhellach trwy'r data yn y tabl isod.

| **Sgiliau Cymraeg Trigolion - (%)** | | |
|---|---|---|
| | **Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | **Cymru** |
| **Yn gallu darllen Cymraeg** | 18.9% | 25.9% |
| **Yn gallu ysgrifennu Cymraeg** | 17.7% | 23.7% |
| **Yn gallu deall Cymraeg ar lafar** | 24.5% | 33.4% |

Mae modd gweld dadansoddiad o lefelau sgiliau iaith ein staff isod -

| **Lefel** | **Canran** |
|---|---|
| Lefel 0 | 43.56% |
| Lefel 1 | 40.50% |
| Lefel 2 | 4.99% |
| Lefel 3 | 1.98% |
| Lefel 4 | 2.19% |
| Lefel 5 | 6.75% |

[1] Cyfrifiad 2011
[2] Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

**Data / Ymchwil Perthnasol Eraill**

Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg

Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg Cyngor RhCT 2017 – 2020

| | |
|---|---|
| | Cynllun Strategol Arfaethedig Cymraeg mewn Addysg 2022 - 2032<br><br>Data'r Gweithlu parthed: Lefelau Sgiliau Cymraeg |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.<br><br>Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb a'r ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol y mae'n rhaid eu cwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.<br><br>Cofiwch y gallai effeithiau cadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, gallai cynnig fod o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.<br><br>**Mae modd gweld Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg blaenorol ar wefan Inform drwy glicio yma.** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gennych chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gamau y gallwch chi eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith | Cadarnhaol/ Negyddol/ Niwtral<br><br>**Cadarnhaol** | Prif nod y strategaeth yw sicrhau mwy o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd unrhyw gynllun gweithredu sy'n cael ei gymeradwyo yn sicrhau dull wedi'i dargedu at gynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael yn ein cymunedau a'n gweithle yn ystod cyfnod y strategaeth. | Strategaeth Hybu'r Gymraeg (ac unrhyw Gynllun Gweithredu y cytunwyd arno) | Sicrhau bod unrhyw gamau y cytunwyd arnynt yn cael eu monitro'n gadarn gan wasanaethau a arweinir gan y Cyngor a'i bartneriaid. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. Cyfleoedd Addysg / Astudio Cyfrwng Cymraeg. Cysylltiadau â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru / Strategaeth Hybu'r Gymraeg Cyngor RhCT | **Cadarnhaol** | • Prif nod y strategaeth yw sicrhau mwy o gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr. Bydd y cynllun gweithredu yn sicrhau dull wedi'i dargedu at gynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ein cymunedau a'n gweithle. Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar. Mae'r Cynllun yn cynnwys targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer y disgyblion, ac felly nifer y siaradwyr, sy'n mynychu | • Cynllun Gweithredu - Strategaeth y Gymraeg<br><br>• Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 | Byddai modd rhoi ystyriaeth bellach i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac archwilio'r rhwystrau penodol y mae'r cymunedau yma'n eu hwynebu o ran iaith addysg er mwyn galluogi ymgyrch farchnata wedi'i thargedu i gynyddu nifer y bobl sy'n dewis addysg Gymraeg. |

RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ysgolion cyfrwng Cymraeg dros y deng mlynedd nesaf. | | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnyddio Gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn rhan o fywyd beunyddiol yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati'n weithredol i annog a hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau Cymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser | **Cadarnhaol** | Prif nod y strategaeth yw sicrhau mwy o gyfleoedd er mwyn i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, cynyddu nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol yn ein cymunedau a'r gweithle. Bydd unrhyw gynllun gweithredu sy'n cael ei gymeradwyo yn sicrhau dull wedi'i dargedu at gynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ddysgu Cymraeg a defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn ein cymunedau a'r gweithle. Mae'r strategaeth hefyd yn cyd-fynd yn strategol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor a gafodd ei gyhoeddi'n ddiweddar. Mae'r Cynllun yn cynnwys targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer y disgyblion, ac felly nifer y siaradwyr, sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg dros y | • Cynllun Gweithredu - Strategaeth y Gymraeg<br><br>• Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 | Dylai unrhyw gynllun gweithredu sy'n cael ei gymeradwyo drafod yr angen i ystyried y Gymraeg mewn perthynas â cheisiadau cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bosibl y bydd canllawiau cynllunio yn cael eu diweddaru i'w gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ystyried y Gymraeg yn rhan o'r broses gynllunio. |



RHONDDA CYNON TAF

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | deng mlynedd nesaf. Mae'r camau yma, yn eu tro, yn hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy cyffredinol. | | |
| **Cydymffurfio â Safonau Cymraeg Statudol y Cyngor**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith | **Cadarnhaol** | • Yn rhan o'r broses gynllunio, mae Uned Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor wedi sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Safon 145 ac 146 a'r safonau rhyngddibynnol eraill sy'n berthnasol i waith cyhoeddi ac ymgynghori ar strategaeth strategol fel hyn. | • Mae Safon 145 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor ysgrifennu a chyhoeddi strategaeth a chynllun gweithredu bob 5 mlynedd. Mae Safon 146 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni asesu'r strategaeth ar ddiwedd y pum mlynedd, gan gynnwys:<br><br>(a) asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi dilyn y strategaeth ac wedi bodloni targedau sydd wedi'u pennu,<br>(b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw ar ein gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol: (i) (i) nifer | • Yn unol â Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor a chanllawiau mewnol ynghylch llunio polisïau, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yma yn sicrhau bod rhagor o effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg yn cael eu hystyried yn rhan o'r broses gynllunio ac wedi hynny yn cael eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal, a'u hoedran; (ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg | |
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** | | | | |



RHONDDA CYNON TAF

| **Cam 3 – Gwella'r cynnig**<br><br>Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.<br><br>Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod? | | |
|---|---|---|
| **Beth rydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud?** | **Pwy sy’n gyfrifol?** |
| Sicrhau bod unrhyw gamau y cytunwyd arnyn nhw'n cael eu monitro'n gadarn gan wasanaethau a arweinir gan y Cyngor a'i bartneriaid. | Bydd cynllun gweithredu yn cael ei lunio a’i gymeradwyo ar bob lefel unwaith y bydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 wedi’u cyhoeddi. | Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr y Gwasanaeth |
| Ystyried diweddaru canllawiau ynghylch ceisiadau cynllunio i’w gwneud yn ofynnol i’r ymgeisydd ystyried y Gymraeg yn rhan o’r broses gynllunio. | Yn ystod cyfnod y strategaeth. | Pennaeth Gwasanaeth / Rheolwr y Gwasanaeth / Adran Gynllunio |

| Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu. | |
|---|---|
| **Beth a nodwyd?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
| | |
| | |

RHONDDA CYNON TAF

**<u>Cam 4 – Adolygu</u>**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, rhaid i chi anfon yr asesiad yma at y Gwasanaethau Cymraeg – Swyddogiaith@rhondda-cynon-taf.gov.uk a'r Garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghori@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf ar gyfer rhywfaint o arweiniad cychwynnol ac adborth. Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael ei osod ger bron Swyddogion y Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Arweinwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith i gyfeiriad e-bost - BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg** |
|---|---|---|
| Yn ei hanfod, bwriad y strategaeth hon (ac unrhyw gynllun gweithredu) yw cael effaith gadarnhaol fawr ar y Gymraeg ac nid yw'n ymddangos y bydd unrhyw un o'r camau gweithredu yn cael effaith negyddol mewn unrhyw ffordd. | Medi 2022 | Dd/B |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
| Does dim sylwadau arwyddocaol - cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ei ysgrifennu gan swyddogion y | Medi 2022 | Mae'r ffigurau sy'n ymwneud â'r boblogaeth wedi'u diwygio i adlewyrchu data cychwynnol o Gyfrifiad 2021. |



RHONDDA CYNON TAF

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymraeg. Rhoddodd Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Cymraeg drosolwg byr i'r panel o'r strategaeth. | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |
| Gweler Atodiad 2 o'r prif adroddiad | Medi 2022 | Rhoddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth lunio'r strategaeth newydd. |



RHONDDA CYNON TAF

| **Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a phwy? |
|---|
| Bydd adroddiad monitro blynyddol yn cael ei gyflwyno i Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion y Gymraeg er mwyn cynnal gwaith craffu ac adolygu. Mae'r pwyllgor yma'n cynnwys Aelodau o'r Cabinet ac Aelodau Etholedig o'r grwpiau gwahanol. Yn ogystal â hyn, rydyn ni'n ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yn rheolaidd. Y bwriad yw y bydd Grŵp Llywio'r Cabinet yn sicrhau bod yr holl rhanddeiliaid allweddol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd yn y dyfodol fel bod modd iddyn nhw gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd a thargedau.<br><br>Rydyn ni hefyd yn bwriadu diweddaru'n targedau o ran cynnydd canrannol yn nifer y siaradwr Cymraeg yn ein Bwrdeistref Sirol ar ôl dadansoddi data Cyfrifiad 2021, sydd heb ei gyhoeddi eto.<br><br>Yn dilyn adroddiadau blynyddol, ac yn unol â gofynion Safon y Gymraeg 146, bydd y strategaeth lawn yn cael ei hadolygu ar ddiwedd ei hoes. Yn dilyn yr asesiad ffurfiol, bydd strategaeth newydd yn cael ei llunio a'i chyhoeddi. Bydd y strategaeth yn destun ymgynghoriad gyda'n cymunedau a'n rhanddeiliaid allweddol. |

| |
|---|
| **<u>Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau gan y Cynnig</u>**<br><br>Rhowch grynodeb o'r asesiad effaith isod, gan gynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol, ynghyd â throsolwg o'r camau rydych chi wedi'u cymryd ers yr asesiad effaith i gyfrannu'n well at ragor o effeithiau cadarnhaol. Dylai'r crynodeb hwn gael ei gynnwys yn adran Ystyriaethau Cymraeg yn rhan o dempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor / y Cabinet. Nid yw'n ddigonol i ysgrifennu 'Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad X'. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad. |
| *Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn -*<br><br>Mae natur y strategaeth a'r cynllun gweithredu yma'n golygu eu bod nhw'n bwriadu cael effaith gadarnhaol fawr ar y Gymraeg ac nid yw'n ymddangos fel y bydd unrhyw un o'r camau gweithredu yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.<br><br>Yn dilyn y broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, mae nifer o effeithiau cadarnhaol ychwanegol wedi'u nodi ac wedi'u cynnwys yn rhan o gynigion y polisi.<br><br>Nid oes modd cofnodi targed manwl gywir ar gyfer cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn RhCT hyd nes y bydd data Cyfrifiad 2021 yn cael ei ryddhau a hyd nes y bydd y data hwnnw'n cael ei ddadansoddi. O ganlyniad i hynny, bydd y cynllun gweithredu'n cael ei ddiweddaru ar ôl i'r data gael ei ryddhau er mwyn sicrhau bod targedau cadarn ar waith. |



RHONDDA CYNON TAF

| **Cam 7 – Cymeradwyo** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg** | Steffan Gealy<br>Lisa Sheppard Thomas | **Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | Wendy Edwards/Louise Davies/Nicola Lewis |
| **Swydd** | Rheolwr Gwasanaeth / Uwch Swyddog Cydymffurfio – Y Gymraeg | **Rwy’n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)** | Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw ddiwygiadau |
| | | | **Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu** |
| | | | Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg |
| **Llofnod** | | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth** |  |
| **Dyddiad** | | **Dyddiad** | 23 Medi 2022 |

Tudalen wag